

Herio bwlio, troseddau casineb, digwyddiadau casineb ac aflonyddu



Rhagfyr 2021

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /
This document is available in English.



**Arweiniad i
Ysgolion Caerdydd**

CYNNWYS

RHAGAIR

1. Cefndir

1.1 Hawliau, parch, cydraddoldeb: canllawiau herio bwlio Llywodraeth Cymru, Tach 2019

2. Cyd-destun Caerdydd

2.1 Data cefndir – yr hyn y mae pobl ifanc yn ei ddweud yng Nghaerdydd

3. Diffiniadau

3.1 Diffiniad o fwlio

3.2 Rhesymau a chymhellion dros fwlio

3.3 Mathau o fwlio

4. Beth yw trosedd casineb / digwyddiad casineb?

4.1 Beth yw trosedd casineb?

4.2 Beth yw digwyddiad casineb?

4.3 Enghraifft o pryd y daw bwlio yn ddigwyddiad casineb

4.4 Ffurflenni a chymhellion troseddau casineb a digwyddiadau casineb

4.5 Adfeddiannu troseddau casineb a digwyddiadau casineb

5. Aflonyddu

5.1 Aflonyddu

5.2 Aflonyddu rhywiol / Ymddygiadau rhywiol niweidiol

6. Arall

6.1 Dibwyllo

6.2 Arall

7. Disgwyliadau ysgolion a Chyrff Llywodraethu yng Nghaerdydd.

7.1 Disgwyliadau ysgolion

7.2 Polisi

7.3 Cofnodi ar lefel yr ysgol

7.4 Cyflwyno data i'r awdurdod lleol

7.5 Cymorth gan yr Awdurdod Lleol

8. Cwynion

DOLENNI DEFNYDDIOL A GWYBODAETH YCHWANEGOL

1. Cymorth i Ysgolion

1.1 Cymorth i ALI

1.2 Asiantaethau cymorth, adnoddau a sefydliadau eraill

- Eiriolaeth
- Cymorth i Ddiodefwyr
- Swyddogion Heddlu Cymuned Ysgolion a Swyddogion SchoolBeat
- Bwlio
- Bwlio Ar-lein
- LHDT
- Hiliaeth
- Iechyd Meddwl a Lles
- Trosedd Casineb
- Aflonyddu rhywiol ar-lein
- Gweithdrefn gwyno ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion

2. Templedi

2.1. Polisi enghreifftiol ar Fwlio

2.2 Polisi enghreifftiol ar gyfer Trosedd casineb, digwyddiadau casineb, aflonyddu ac 'arall'

2.3 Rhestr wirio ar gyfer llunio polisi gwrth-fwlio, **troseddau casineb, digwyddiadau casineb, aflonyddu ac 'arall'**

2.4 Enghraifft o Ffurflen Ddigwyddiadau, **wedi'i haddasu o dempled LIC ar gyfer bwlio**

RHAGAIR

Mel Godfrey, Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes

Nod y canllawiau hyn yw nodi neges glir a chyson i gymunedau ysgolion ledled Caerdydd gan ganolbwyntio ar hyrwyddo cydraddoldeb a mynd i'r afael â gwahaniaethu uniongyrchol ac anuniongyrchol yn erbyn plant a phobl ifanc.

Mae'n hanfodol bod y staff a'r plant eu hunain yn deall goblygiadau bwlio a gwahaniaethu yn eang.

Mae'n ofynnol i ysgolion ddatblygu blaenoriaethau a rhaglenni gweithredu priodol i leihau gwahaniaethu yn erbyn plant difreintiedig sydd wedi'u heithrio, wedi'u hymyleiddio'n gymdeithasol ac i hyrwyddo cydraddoldeb i'r grwpiau hyn.

Mae angen i ni gydnabod pwysigrwydd dathlu'r gwahanol hunaniaethau yn ein cymunedau a chefnogi plant a phobl ifanc i deimlo'n gadarnhaol am wahaniaethau.

Mae casglu a deall data perthnasol, er mwyn gallu nodi gwahaniaethu neu anghydraddoldebau, yn elfen bwysig o'r gwaith hwn.

Yn ganolog i'n dull gweithredu dylai fod addysgu plant a phobl ifanc ynghylch y materion pwysig hyn o oedran cynnar, gan ddatblygu cyfres o werthoedd sy'n gweithredu fel sylfaen ar gyfer ysgolion a chymdeithas ehangach.

CEFNDIR

1. Dogfen ganllaw ‘Hawliau, parch, cydraddoldeb: herio bwlio’ Llywodraeth Cymru, Tachwedd 2019

Cyhoeddodd LIC ganllawiau newydd i herio bwlio mewn ysgolion yng Nghymru. Cafodd y canllawiau, sydd wedi'u hanelu at gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, awdurdodau lleol, rhieni, gofalwyr a phlant a phobl ifanc, eu lansio cyn Wythnos Gwrth-fwlio Tachwedd 2019.

Trosolwg

Mae yna 5 dogfen ganllawiau ac mae pob un ohonynt yn cael eu cefnogi gan restr chwarae adnoddau ar-lein, a gyhoeddir ar Hwb <https://llyw.cymru/bwlio-yn-yr-ysgol>

Mae pob dogfen yn y gyfres hon yn rhoi cyngor wedi'i deilwra'n benodol ar gyfer cynulleidfaoedd allweddol.

Mae'r dogfennau canllawiau statudol a dogfennau canllawiau cynghorol yn rhoi gwybodaeth i bawb sy'n ymwneud ag atal a herio bwlio mewn ysgolion.

Mae'r canllawiau hyn yn disodli'r canllawiau Parchu Eraill: Canllawiau Gwrth-fwlio a gyhoeddwyd yn 2003 a 2011.

Canllaw a phecynnau cymorth

1. Canllawiau statudol ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, sy'n nodi disgwyliadau Llywodraeth Cymru o lywodraethwyr ysgol, penaethiaid ac ysgolion wrth fynd i'r afael â bwlio.

[Pecyn cymorth gwrthfwlio i ysgolion](#)

2. Canllawiau statudol ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru, sy'n nodi disgwyliadau Llywodraeth Cymru ar gyfer mynd i'r afael â bwlio mewn ysgolion ar lefel leol..

[Pecyn cymorth gwrthfwlio ar gyfer awdurdodau lleol](#)

3. Canllawiau cynghorol i rieni a gofalwyr, sy'n amlinellu rolau a chyfrifoldebau ar gyfer mynd i'r afael â bwlio yng nghymuned yr ysgol.

[Pecyn cymorth gwrthfwlio i rieni a gofalwyr](#)

4 & 5. Cyfres o ganllawiau cynghorol ar gyfer plant a phobl ifanc, sy'n rhoi cyngor a chymorth i'r rhai y mae bwlio'n effeithio arnynt ac yn nodi hawliau a chyfrifoldebau dysgwyr o ran mynd i'r afael â bwlio yng nghymuned eu hysgol.

[Pecyn cymorth gwrthfwlio i blant](#)

[Pecyn cymorth gwrthfwlio i bobl ifanc](#)

2. CYD-DESTUN CAERDYDD

Wrth i Gaerdydd ddatblygu ei huchelgais i wireddu hawliau pob plentyn, bydd herio rhagfarn a bwlio yn effeithiol yn rhan annatod o hyrwyddo diwylliant lle mae hawliau plant yn cael eu parchu yn ein dinas.

Drwy gydol ein dull gweithredu, rydym yn nodi plant a phobl ifanc fel deiliaid hawliau, a'u rhieni, athrawon, llywodraethwyr a'r gymuned ehangach, fel **pobl â dyletswydd** â chyfrifoldeb i gynnal yr hawliau hyn a'u gwireddu ar gyfer plant yng Nghaerdydd.

Mae Cyngor Caerdydd wedi ymrwymo i ddileu pob math o fwlio, ymddygiad gormesol ac aflonyddu. Mae gan bob aelod o'r gymuned yr hawl i weithio a dysgu mewn amgylchedd diogel ac amddiffynnol, yn rhydd rhag bwlio, ymddygiad gormesol ac aflonyddu o unrhyw fath.

Yng ngoleuni'r cynnydd mewn troseddau casineb a gofnodwyd, mae gwybodaeth, canllawiau a disgwyliadau sy'n ymwneud â throseddau casineb a digwyddiadau casineb hefyd wedi'u cynnwys yn y ddogfen hon.

Er gwaethaf gwaith gan ysgolion a gwasanaethau eraill, yn ogystal â mentrau llywodraeth leol, Cymru a'r DU, mae bwlio yn parhau i fod yn broblem sy'n peri pryder mawr i lawer. Mae sianeli ar-lein a'r cyfryngau cymdeithasol yn parhau i ddarparu dulliau a chyfleoedd newydd i fwlio eraill.

Yn wyneb bygythiadau digidol cynyddol a rhagfarnau ehangach sy'n cael eu mynegi ar-lein ac all-lein, efallai bod canolbwyntio ar herio bwlio yn fwy hanfodol nag erioed o'r blaen. Yng Nghymru a Lloegr mae cynnydd yn nifer y troseddau casineb a gofnodwyd sy'n datgelu'r angen i herio gwahaniaethu. Mae miloedd o blant a phobl ifanc yng Nghymru wedi dweud mai ymdrin â bwlio yw eu prif flaenoriaeth o hyd. 'Hawliau, parch, cydraddoldeb: dogfen ganllawiau ar herio bwlio' Llywodraeth Cymru, Tachwedd 2019, tud 12.

Mae rhai grwpiau o ddisgyblion mewn mwy o berygl nag eraill, gan gynnwys y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig fel y'u diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. ([Deddf Cydraddoldeb 2010 \(legislation.gov.uk\)](https://legislation.gov.uk))

Mae cysylltiad agos rhwng sut mae disgyblion yn trin ei gilydd a pha mor dda y mae arweinwyr yn cyfleu disgwyliadau am ymddygiad disgyblion. Mae'r ysgolion gorau yn defnyddio dull gweithredu rhagweithiol i atal bwlio ac i liniaru ei effeithiau pan fydd yn digwydd.

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol lunio canllawiau, gan nodi unrhyw dueddiadau penodol a nodi sut y byddant yn cefnogi ysgolion i, er enghraifft, ddarparu hyfforddiant staff ar sut i nodi, atal a rheoli bwlio.

Diben y canllawiau hyn i Gaerdydd yw cyflawni'r gofyniad hwn a hyrwyddo neges gyson bod bwlio, trosedd casineb, digwyddiadau casineb ac aflonyddu yn cael eu cymryd o ddifrif, ac y dylid eu rheoli'n effeithiol drwy gyfuniad o fesurau ataliol ac adweithiol.

Nodau'r canllawiau hyn yw:

- sicrhau bod pawb yn deall y diffiniadau clir;
- ceisio lleihau amlder pob math o fwlio, gan gynnwys trosedd casineb a digwyddiadau sy'n cynnwys disgyblion â nodweddion gwarchoddedig;
- cynyddu'r tebygolrwydd o ddatgelu digwyddiadau i oedolion cyfrifol;
- sicrhau y gweithredir strategaethau gwrth-hiliol yn effeithiol e.e. dull ysgol gyfan o fesur iechyd a lles;
- cynyddu hyder staff i weithio gyda chyflawnwyr, gwylwyr a thargedau;
- sicrhau bod mesurau diogelu priodol ar waith i wella lles disgyblion;
- helpu i sicrhau bod ysgolion a lleoliadau yn ddiogel ac yn cyflawni eu cyfrifoldeb o ran dyletswydd gofal i bobl ifanc a gweithwyr.

2.1. Data cefndir – yr hyn y mae pobl ifanc yn ei ddweud yng Nghaerdydd

Yn 2019/20 cynhaliwyd tri arolwg ar draws lleoliadau addysgol Caerdydd:

- **Arolwg Caerdydd sy'n Dda i Blant 2019**
(Cymerodd 6,243 o ddisgyblion Cynradd ac Uwchradd Caerdydd ran, gan gynnwys disgyblion Addysg Heblaw yn yr Ysgol)
- **Arolwg Rhwydwaith Ymchwil Ysgolion Iach (RhYYI) 2019/20**
(Cymerodd 11,514 o ddisgyblion ran o 16 o Ysgolion Uwchradd Caerdydd)
- **Arolwg Asesu Addysg Gwasanaeth Ieuencid Caerdydd (GIC) 2020/21**
(Cymerodd 237 (26%) o ddisgyblion ran o Ysgol Uwchradd Illtud Sant)

Roedd yr arolygon hyn yn cynnwys cwestiynau yn ymwneud â'u profiadau o fwlio yn yr ysgol. Dyma grynoded o ddata allweddol yn ymwneud â bwlio:

- Roedd dros 1 disgybl o bob 3 wedi profi bwlio yn yr ysgol yn y misoedd yn arwain at gymryd rhan yn yr arolygon. Cyfartaledd yr holl ganlyniadau yw 34%, bron yr un faint â'r cyfartaledd cenedlaethol o 33%.

- Ar gyfartaledd mae 1 disgybl o bob 6 (15%) yng Nghaerdydd yn cymryd rhan mewn bwlio disgybl/disgyblion eraill yn yr ysgol. Mae hyn yn hafal i'r cyfartaledd cenedlaethol.
- Roedd bron i 1 disgybl o bob 5 (18%) wedi profi seiberfwlio yn y misoedd yn arwain at gymryd rhan yn yr arolygon. Mae hyn yn adlewyrchu'r cyfartaledd cenedlaethol.
- Y rhesymau mwyaf cyffredin a roddwyd gan gyfranogwyr yr arolwg dros fwlio disgyblion oedd ar sail eu pwysau, rhywioldeb, anabledd a phwy yw eu ffrindiau.

3. BETH YW BWLIO

3.1 Diffiniad o fwlio

Nid oes diffiniad cyfreithiol o fwlio yng Nghymru. Mae canllawiau gwrth-fwlio blaenorol Llywodraeth Cymru (Parchu eraill: Trosolwg gwrth-fwlio, Dogfen ganllawiau Rhif: 050/2011) yn nodi bod bwlio:

- yn fwriadol niweidiol (gan gynnwys ymddygiad ymosodol);
- yn digwydd yn aml dros gyfnod o amser (gan gydnabod y gall un digwyddiad yn unig achosi trawma i ddisgybl a gwneud iddo boeni y gallai ddigwydd eto yn y dyfodol);
- yn ei gwneud yn anodd i ddioddefwyr amddiffyn eu hunain yn ei erbyn.

Mae Hawliau, parch, cydraddoldeb: Canllawiau statudol ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir (2019) yn diffinio bwlio fel:

“Ymddygiad gan unigolyn neu grŵp, sy’n cael ei ailadrodd yn raddol dros gyfnod, sy’n niweidio eraill yn fwriadol, naill ai’n gorfforol neu’n emosiynol.”

Bydd ALI Caerdydd yn mabwysiadu'r diffiniad hwn.

Mae egluro beth yw ystyr ymddygiad bwlio yn fan cychwyn hanfodol. Gall y diffiniadau uchod fod yn ddefnyddiol i ysgolion wrth ddatblygu eu diffiniad eu hunain, neu fersiwn sy'n addas i ddysgwyr.

3.2 Rhesymau a chymhellion dros fwlio

Gall plant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn bwlio gael amrywiaeth o gymhellion. Efallai bod ganddynt ragfarnau yn erbyn rhai grwpiau mewn cymdeithas ehangach. Gall y safbwyntiau rhagfarnllyd hyn gael eu llywio gan ystod eang o ffactorau gan gynnwys y dylanwadwyr canlynol: y cyfryngau, gwerthoedd cymunedol a/neu deuluol, neu brofiad personol blaenorol. Gall cymhellion cyflawnwyr hefyd gynnwys awydd:

- pŵer, balchder a phoblogrwydd;
- perthyn i grŵp cryf gydag ymdeimlad cadarn o hunaniaeth a hunanbarch;
- osgoi bod yn darged i fwlio;
- gwneud iawn am achosion o fychanu y maen nhw eu hunain wedi'i ddioddef yn y gorffennol.

Nid yw bwlio'n digwydd rhwng disgyblion yn unig. O bryd i'w gilydd daw cyhuddiadau i law o oedolion yn bwlio disgyblion (gallai hyn gynnwys riant disgybl), disgyblion yn bwlio oedolion neu yn wir oedolion yn bwlio oedolion. Dylid mynd i'r afael â hyn ym mholisiau gwrth-fwlio ysgolion.

3.3 Mathau o fwlio

Gall bwlio fod ar sawl ffurf, gan gynnwys:

- **corfforol** – cicio, baglu neu wthio rhywun, anafu rhywun, difrodi ei eiddo neu wneud ystumiau bygythiol;
- **geiriol** – gwawdio a galw enwau, sarhau, bygwth, bychanu neu frawychu;
- **emosiynol** – ymddygiad a fwriedir i ynysu, niweidio neu fychanu rhywun; gweithredoedd slei neu lechwraidd a wnaed yng nghefn y targed, neu ledaenu suon sy'n ceisio niweidio perthnasoedd y targed, tynnu eu ffrindiau i ffwrdd, ynysu neu fychanu rhywun neu gael rhywun i drafferthion yn fwriadol;
- **rhywiol** – cyffwrdd digroeso, bygythiadau, sylwadau a jôcs neu ensyniadau. Gall hyn hefyd gynnwys blacmel rhywiol, yr hyn a elwir yn 'bornograffi dial' ac unrhyw gamddefnydd o luniau personol a chignoeth o'r dysgwr sy'n cael ei dargedu;
- **ar-lein (seiber)** – defnyddio unrhyw fath o ddulliau technolegol, ffonau symudol, rhwydweithiau cymdeithasol, gemau, ystafelloedd sgwrsio, fforymau neu apiau i fwlio drwy negeseuon testun, negeseuon, delweddau neu fideo;
- **cysylltiedig â rhagfarn** – bwlio dysgwr neu grŵp o ddysgwyr oherwydd rhagfarn.

Gellid cysylltu hyn â stereoteipiau neu ragdybiaethau am hunaniaeth. Mae bwlio sy'n gysylltiedig â rhagfarn yn cynnwys y nodweddion gwarchoddedig;

- oedran,
- anabledd,
- ailbennu rhywedd,
- hil,
- crefydd neu gred,
- rhyw
- chyfeiriadedd rhywiol,
- priodas a phartneriaeth sifil,
- beichiogrwydd a mamolaeth.

Dylid herio pob math o ragfarn yn gyfartal.

Mae rhagfarn yn gallu, ac mae yn ymestyn y tu hwnt i'r nodweddion gwarchoddedig ac mae'n gallu arwain at fwlio am amrywiaeth o resymau eraill fel;

- targedu statws cymdeithasol teulu,
- cefndir,
- ymddangosiad,
- manteisio ar anghenion dysgu ychwanegol (ADY) person neu salwch hirdymor.

Mae'n bwysig cofio y gellir diffinio llawer o ymddygiadau, sydd yng nghydestun yr ysgol yn fwlio, fel ymddygiad bygythiol, difrod troseddol, lladrad, ymosodiad, aflonyddu rhywiol, gwrth-anabledd, aflonyddu homoffobig neu hiliol, a throseddau casineb. Hawl disgyblion a rhieni yw rhoi gwybod i'r Heddlu am ddigwyddiadau o'r fath.

4. BETH YW TROSEDD CASINEB A DIGWYDDIAD CASINEB?

4.1 Diffiniad o drosedd casineb

Diffinnir trosedd casineb fel "Unrhyw **drosedd** y mae'r dioddefwr neu unrhyw berson arall yn ystyried ei bod yn cael ei hysgogi gan elyniaeth neu ragfarn yn seiliedig ar hil neu hil ganfyddedig person; crefydd neu grefydd canfyddedig person; cyfeiriadedd rhywiol neu gyfeiriadedd rhywiol canfyddedig person; anabledd neu anabledd canfyddedig person ac unrhyw drosedd sy'n cael ei hysgogi gan elyniaeth neu ragfarn yn erbyn person sy'n drawsryweddol neu yr ystyrir iddo fod yn drawsryweddol."

Gall Troseddau Casineb gynnwys:

- Ymosodiad corfforol
- Difrod troseddol, difrod i eiddo, graffiti sarhaus, llosgi bwriadol
- Aflonyddu
- Post casineb
- Achosi aflonyddwch, braw neu drallod (Deddf Trefn Gyhoeddus 1986)

4.2 Diffiniad o ddigwyddiad casineb

Digwyddiad casineb yw **unrhyw ddigwyddiad nad yw'n drosedd** y mae'r dioddefwr neu unrhyw berson arall yn ystyried ei fod yn cael ei ysgogi gan elyniaeth neu ragfarn yn seiliedig ar hil neu hil ganfyddedig person; crefydd neu grefydd canfyddedig person; cyfeiriadedd rhywiol neu gyfeiriadedd rhywiol canfyddedig person; anabledd neu anabledd canfyddedig person; neu ar sail bod yn drawsryweddol neu yr ystyrir i berson fod yn drawsryweddol."

Gall unrhyw un ddioddef digwyddiad casineb. Er enghraifft, efallai eich bod wedi cael eich targedu oherwydd bod rhywun yn meddwl eich bod yn hoyw er nad ydych, neu oherwydd bod gennych blentyn anabl.

Ni fydd pob digwyddiad casineb yn gyfystyr â throseddau, ond mae'r un mor bwysig bod y rhain yn cael eu hadrodd a'u cofnodi.

Gall digwyddiadau casineb gynnwys:

- Cam-drin geiriol, galw enwau, jôcs sarhaus
- Aflonyddu a sarhad
- Bwlio neu fygwth

- Post casineb, negeseuon ffôn neu destun difriol
- Cwynion maleisus
- Cam-drin ar-lein

4.3 Enghraifft o pryd y daw bwlio yn ddigwyddiad casineb:

Gall disgybl gael ei fwlio am ei bwysau ar sawl achlysur gwahanol. Er eu bod yn annymunol, nid yw'r digwyddiadau hyn yn cael eu hystyried yn ddigwyddiadau casineb. Os oes tystiolaeth, ar un achlysur neu fwy, o un o'r nodweddion a grybwyllir (e.e. sarhad homoffobig/hiliol, gwneud hwyl am anabledd rhywun) yna daw hyn yn ddigwyddiad casineb a dylid ei gofnodi felly.

Felly, byddai'r aelod o staff yn cofnodi pob digwyddiad y mae'r disgybl wedi'i wynebu, yn unol â'r canllawiau adrodd gwrth-fwlio, ond ar adegau lle defnyddiwyd nodwedd warchodedig gellid nodi'r rhain hefyd fel digwyddiadau casineb.

4.4 Mathau o droseddau casineb a digwyddiadau casineb

Gall troseddau casineb a digwyddiadau casineb fod ar sawl ffurf, gan gynnwys:

1. Anabledd

Mae troseddau a digwyddiadau casineb ar sail anabledd yn cael eu hysgogi gan ragfarn yn erbyn pobl anabl. Gall hyn fod yn gysylltiedig ag anabledd neu angen ychwanegol canfyddedig neu wirioneddol. Drwy ganfyddiad, rydym yn golygu y gall rhai plant drin nodwedd gorfforol neu 'ymddygiadol' plentyn arall fel anabledd, a'i gau allan neu ei fwlio oherwydd hynny, er nad yw'r plentyn ei hun yn ystyried bod ganddynt anabledd. Gall y plant eraill ystyried y nodwedd hon yn anabledd naill ai drwy gamddealltwriaeth wirioneddol neu oherwydd anoddefgarwch o wahaniaethau.

Gall enghreifftiau gynnwys:

- galw enwau cas sy'n gysylltiedig ag anabledd/angen ychwanegol
- cau rhywun allan oherwydd ei anabledd/angen dysgu canfyddedig neu wirioneddol
- poeri neu gicio rhywun oherwydd ei anabledd/angen dysgu canfyddedig neu wirioneddol

2. Hil

Mae troseddau a digwyddiadau casineb ar sail hil yn digwydd pan fydd plentyn neu berson ifanc yn profi ymddygiad gelyniaethus neu sarhaus mynych yn ei erbyn yn seiliedig ar:

- liw ei groen
- cefndir neu draddodiadau diwylliannol a chrefyddol
- ethnigrwydd neu ethnigrwydd canfyddedig

Gall enghreifftiau o droseddau a digwyddiadau casineb ar sail hil gynnwys:

- Galw enwau ar rywun, pryfocio neu ei fychanu gan ddefnyddio iaith hiliol sarhaus
- Gwneud hwyl am arferion neu draddodiadau crefyddol rhywun
- Gwneud hwyl am eu dillad, acen, bwyd ac ati.
- Gwrthod gweithio neu gydweithredu â rhywun oherwydd ei ethnigrwydd
- Fandaliaeth eiddo, graffiti sarhaus neu arddangos symbolau hiliol

3. Crefydd

Mae troseddau a digwyddiadau casineb ar sail crefydd yn digwydd pan fydd plentyn neu berson ifanc yn profi ymddygiad gelyniaethus neu sarhaus mynych yn ei erbyn yn seiliedig ar ei grefydd, ffydd neu gred. Mae hyn yn cynnwys digwyddiadau sectyddol.

Gall enghreifftiau o droseddau a digwyddiadau casineb ar sail crefydd gynnwys:

- Galw enwau ar rywun, pryfocio neu ei fychanu gan ddefnyddio iaith sarhaus
- Gwneud hwyl am arferion neu draddodiadau crefyddol rhywun
- Taro, cicio, dyrnu neu frifo rhywun yn gorfforol
- Gwrthod gweithio neu gydweithredu â rhywun oherwydd ei gefndir crefyddol neu ddiwylliannol gwirioneddol neu dybiedig
- Fandaliaeth eiddo, graffiti sarhaus neu arddangos symbolau yn bwrpasol i wneud i rywun deimlo'n annifyr.

4. Cyfeiriadedd rhywiol - Homoffobig

Mae troseddau casineb a digwyddiadau casineb homoffobig yn digwydd yn aml o ganlyniad i gyfeirio ragfarn at blentyn neu berson ifanc oherwydd ei fod:

- yn lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol
- yn cael ei ystyried yn lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol am ei fod yn ffitio rhai stereoteipiau (e.e. bechgyn sy'n siarad yn feddal, merched sy'n hoffi pêl-droed, ac ati)
- â ffrindiau LHD neu aelodau o'r teulu sy'n LHD
- yn cael ei ystyried yn wahanol

Gall enghreifftiau o droseddau casineb a digwyddiadau casineb homoffobig gynnwys:

- Galw enwau ar rywun, pryfocio neu ei fychanu gan ddefnyddio iaith homoffobig sarhaus
- Taro, cicio, dyrnu neu frifo rhywun yn gorfforol
- Gwneud hwyl am neu ddynwared llais rhywun neu ystumiau ac ati
- Gwrthod gweithio neu gydweithredu â rhywun oherwydd ei gyfeiriadedd rhywiol gwirioneddol neu dybiedig
- Fandaliaeth eiddo, graffiti sarhaus neu arddangos symbolau
- Dweud wrth deulu a/neu ffrindiau rhywun ei fod yn lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol, p'un a yw hynny'n wir ai peidio, neu ledaenu suon am ei gyfeiriadedd rhywiol
- Sylwadau neu ystumiau rhywiol amhriodol

5. Hunaniaeth rhywedd - Trawsffobig

Mae troseddau casineb a digwyddiadau casineb trawsffobig yn digwydd yn aml o ganlyniad i gyfeirio ragfarn at blentyn neu berson ifanc oherwydd ei fod:

- yn drawsryweddol
- yn cael ei ystyried yn drawsryweddol
- nad yw'n cyd-fynd â normau rhyw traddodiadol (e.e. bechgyn â gwallt hir neu'n gwisgo colur, merched yn chwarae chwaraeon tîm)
- â ffrindiau trawsryweddol neu aelodau o'r teulu sy'n drawsryweddol
- yn cael ei ystyried yn wahanol

Gall enghreifftiau o droseddau casineb a digwyddiadau casineb trawsffobig gynnwys:

- Galw enwau ar rywun, pryfocio neu ei fychanu gan ddefnyddio iaith trawsffobig sarhaus
- Defnyddio rhagenwau anghywir (e.e. ef/hi) i fychanu rhywun
- Taro, cicio, dyrnu neu frifo rhywun yn gorfforol
- Gwrthod gweithio neu gydweithredu â rhywun oherwydd ei hunaniaeth rhywedd wirioneddol neu dybiedig
- Fandaliaeth eiddo, graffiti sarhaus neu arddangos symbolau
- Sylwadau neu ystumiau rhywiol amhriodol

6. Digwyddiad casineb wedi'i ysgogi gan ryw neu rywedd

Yn dilyn rhai achosion diweddar, gan gynnwys llofruddiaeth drasig Sarah Everard, mae Llywodraeth y DU wedi gweithredu trafodaethau yn ddiweddar y dylid ymdrin â chasineb at wragedd o dan droseddau casineb/digwyddiadau casineb. Ar hyn o bryd dim ond hyn a hyn o Awdurdodau Lleol ac ardaloedd Heddlu sydd wedi mabwysiadu hyn yn ffurfiol, ac felly fe'i cynhwysir (ynghyd â chasineb at ddyinion) er arfer gorau.

- Mae **Casineb at Wragedd** yn ymwneud â chasáu, dirmyg tuag at, neu ragfarn yn erbyn menywod. Gall amlygu ei hun mewn continwmm sy'n cynnwys casineb ar lafar neu weithredol o fenywod, gan wrthwynebu hawliau sylfaenol menywod, megis rhyddid a pharch unigol.
- Gall **Casineb at Ddyinion** gynnwys dangos casineb, dirmyg neu ragfarn yn erbyn dynion neu fechgyn yn gyffredinol. Gellir arddangos casineb at ddyinion mewn sawl ffordd, gan gynnwys allgáu cymdeithasol, rhywiaeth, gelyniaeth, bychanu dynion, trais yn erbyn dynion, a gwrthrychu rhywiol.

4.5 Adrodd am droseddau casineb a digwyddiadau casineb

Os ceir achos o drosedd casineb neu ddigwyddiad casineb, mae'n bwysig rhoi gwybod amdano i'r heddlu. Wrth roi gwybod am y drosedd neu'r digwyddiad dylech ddweud a ydych yn credu ei fod ar sail anabledd, hil, crefydd, hunaniaeth drawsryweddol, cyfeiriadedd rhywiol neu gyfuniad o'r pethau hyn. Mae hyn yn bwysig am ei fod yn sicrhau ei fod yn cael ei gofnodi fel trosedd casineb neu ddigwyddiad casineb.

Gellir adrodd yn uniongyrchol i'r heddlu neu drwy gymorth i ddiodefswyr. Gellir rhoi gwybod am droseddau a digwyddiadau casineb yn y ffyrdd canlynol:

- Drwy'r adnodd adrodd ar-lein – www.reporthate.victimsupport.org.uk/cy/
- Ffoniwch 24/7 0300 3031 982

- E-bostiwrch Hate.CrimeWales@victimsupport.org.uk
- Mewn argyfwng ffoniwch 999
- [Sut i adrodd troseddau casineb i Heddlu De Cymru \(south-wales.police.uk\)](http://south-wales.police.uk)
- [Adrodd am Drosedd Casineb \(cardiff.gov.uk\)](http://cardiff.gov.uk)

Mae Cymorth i Ddiodefwyr Cymru yn gweithredu'r Ganolfan Genedlaethol Adrodd am Droseddau Casineb a Chymorth yng Nghymru.

Gall troseddau a digwyddiadau casineb gael effaith ddofn ar iechyd corfforol ac emosiynol y rhai sy'n eu dioddef. Gall troseddau casineb a digwyddiadau casineb fod ar wahanol ffurf, er enghraifft, ar ffurf cam-drin geiriol, ymosodiad, difrod troseddol neu gam-drin ar-lein. Mae digwyddiadau sy'n ymddangos eu bod yn rhai lefel isel yn dal i gael effaith gronnol ar les seicolegol. Gall pobl sy'n profi achosion o droseddau casineb yn gyson ddiodeff effeithiau 'diferu' parhaus. Gall effeithiau troseddau casineb arwain yr unigolyn at bryderu am ei ddiogelwch personol, mynd yn ynysig, a newid ymddygiad. Mae'n debygol o gael effaith ar allu'r unigolyn i ddysgu.

Gall diodefwyr troseddau casineb gael cymorth emosiynol ac ymarferol parhaus gan swyddogion Gofal Dioddefwyr a gweithwyr achos sydd wedi'u hyfforddi'n llawn. Mae'r cymorth hwn yn agored nes eu bod yn teimlo'n barod i symud i ffwrdd o'r gwasanaeth. Rhaid i blant dan 18 oed gael cefnogaeth eu rhieni neu warcheidwaid.

Mae cymorth ar gael p'un a yw'r diodefwr yn dewis rhoi gwybod am y drosedd ai peidio. Os ydych yn cyfeirio rhywun at y gwasanaeth mae'n rhaid i chi gael caniatâd yr unigolyn a'i riant neu warcheidwad (os yw dan 18 oed). Gallwch hefyd roi manylion Cymorth i Ddiodefwyr i'r unigolyn er mwyn iddo atgyfeirio ei hun (drwy ei riant neu warcheidwad os yw dan 18 oed).

5. AFLONYDDU

5.1. Aflonyddu

Mae aflonyddu yn sylw diangen sy'n sarhaus neu'n bygwth neu fychanu person. Gall hyn gynnwys defnyddio geiriau llafar neu ysgrifenedig neu gam-drin.

Gall sylw diangen gynnwys:

- geiriau llafar neu ysgrifenedig
- e-byst sarhaus
- twïts neu sylwadau ar wefannau a'r cyfryngau cymdeithasol
- delweddau a graffiti
- ystumiau corfforol
- mynegiannau'r wyneb
- tynnu coes sy'n sarhaus i chi

5.2. Aflonyddu rhywiol / Ymddygiadau rhywiol niweidiol

Aflonyddu rhywiol

Mae aflonyddu rhywiol yn **fath o wahaniaethu anghyfreithlon o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010**. Yn ôl y gyfraith, mae aflonyddu rhywiol yn ymddygiad sydd naill ai i fod i, neu'n cael yr effaith o: ymyrryd â'ch urddas, neu'n creu amgylchedd bygythiol, gelyniaethus, diraddiol, bychanol neu sarhaus.

Ymddygiad rhywiol niweidiol

Ymddygiad rhywiol a fynegir gan blant a phobl ifanc dan 18 oed sy'n amhriodol yn ddatblygiadol, a allai fod yn niweidiol tuag at eu hunain neu at bobl eraill, neu'n sarhaus tuag at blentyn, person ifanc neu oedolyn.

Defnyddir y model canlynol i esbonio'r continwwm o ymddygiadau rhywiol a gyflawnir gan blant a phobl ifanc, o ymddygiad sy'n cael ei ystyried yn normal i dreisgar. Mae ymddygiad rhywiol niweidiol yn cwmpasu amrywiaeth o ymddygiad, y gellir ei arddangos tuag at blant iau, cyfoedion, plant hŷn neu oedolion. Gall ddigwydd ar-lein ac all-lein neu gymysgedd o'r ddau. [Adolygiad o gam-drin rhywiol mewn ysgolion a cholegau - GOV.UK \(www.gov.uk\)](http://www.gov.uk)

Normal	Amhriodol	Problematig	Camdriniol	Treisgar
Disgwylir yn ddatblygiadol	Un achos o ymddygiad rhywiol amhriodol	Ymddygiad problematig ac sy'n peri pryder	Erledigaeth yn fwriadol neu'n ganlyniad	Cam-drin rhywiol treisgar yn gorfforol
Yn dderbyniol yn gymdeithasol		Yn anarferol yn ddatblygiadol ac yn annisgwyl yn gymdeithasol	Yn cynnwys camddefnyddio pŵer	Hynod ymwthiol
Cydsyniol, cilyddol, dwyochrog	Ymddygiad sy'n dderbyniol yn gymdeithasol o fewn grŵp cyfoedion	Dim elfennau gormodol o erledigaeth	Gorfodi i sicrhau cydymffurfiaeth dioddefwyr	Trais offerynnol sy'n cynhyrfu'r cyflawnwr yn seicolegol a/neu'n rhywiol
Gwneud penderfyniadau ar y cyd	Gall cyddestun yr ymddygiad fod yn amhriodol	Gall materion cydsyniad fod yn aneglur	Ymwthiol	Sadistiaeth
	Yn gydsyniol a dwyochrog yn gyffredinol	Gall fod diffyg cilyddiaeth neu bŵer cyfartal	Diffyg caniatâd gwybodus neu'r dioddefwr yn methu â'i roi yn rhydd	
		Gall gynnwys lefelau o orfodaeth	Gall gynnwys elfennau o drais mynegiannol	

Ffynhonnell: Hackett, S, 'Children, young people and sexual violence' yn 'Children behaving badly? Exploring peer violence between children and young people', 2010.

Mae canllawiau helaeth ar gael ar atal ac ymateb i aflonyddu a cham-drin rhywiol, ac amlinellir rhai ohonynt yn Llythyr y Gweinidog Jeremy Miles, Mehefin 2021.

Dyfyniad o lythyr Gweinidogol Jeremy Miles AS/AoS Mehefin 2021.

Mae'r canllawiau statudol Cadw Dysgwyr yn Ddiogel yn helpu pob lleoliad addysg i sicrhau bod ganddo'r systemau diogelu effeithiol ar waith. Mae Adran 5 o'r canllawiau yn rhoi cyngor a gwybodaeth am atgyfeirio i bawb sy'n gweithio mewn lleoliad addysg er mwyn rheoli amgylchiadau penodol. Er mwyn cyflawni eich dyletswyddau diogelu mae'r modiwlau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel ar gael ar Hwb i chi eu cwblhau.

Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn manylu ar rolau a chyfrifoldebau hanfodol ymarferwyr i sicrhau eu bod yn diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl o gael eu cam-drin a'u hesgeuluso. Mae Canllawiau Ymarfer Cymru Gyfan yn rhoi cymorth ar ddiogelu mewn amrywiaeth o feysydd, gan gynnwys cam-drin ar-lein a chamfanteisio'n rhywiol ar blant.

Mae'r Canllawiau i leoliadau addysg ar gam-drin rhywiol, camfanteisio ac ymddygiad rhywiol niweidiol gan gyfoedion yn rhoi adnoddau ymarferol i atal ac ymateb i achosion o gam-drin rhywiol, camfanteisio ac ymddygiad rhywiol niweidiol gan gyfoedion sy'n digwydd y tu mewn a'r tu allan i'r lleoliadau, gan gynnwys cam-drin, ymddygiad rhywiol niweidiol a chamfanteisio yn ddigidol.

Mae Byrddau Diogelu Rhanbarthol wedi bod yn hyrwyddo adnoddau a chyfleoedd dysgu fel rhan o'u gwaith i weithredu'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar atal ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Canllawiau i lywodraethwyr ar Drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) a Phecyn cymorth i staff addysg sy'n cynnwys arfer gorau.

6. ARALL

6.1. Dibwyllo

Mae dibwyllo yn fath o gam-drin seicolegol lle mae person neu grŵp yn taflu amheumon yn ddirgel ar unigolyn neu grŵp wedi'i dargedu, gan wneud iddo gwestiynu ei gof, ei ganfyddiad neu ei farn ei hun. Mae'n aml yn arwain at anghyseinedd gwybyddol a newidiadau eraill gan gynnwys hunan-barch isel. Mae dibwyllo yn cynnwys patrwm o ymddygiad camdriniol gyda'r bwriad nid yn unig o ddylanwadu ar rywun, ond i'w rheoli.

6.2 Os oes unrhyw ddigwyddiadau eraill yn cael eu hadrodd nad ydynt dod o dan y categorïau uchod, cofnodwch nhw o dan 'Arall.'

7. DISGWYLIADAU YSGOLION A CHYRFF LLYWODRAETHU YNG NGHAERDYDD

7.1. Disgwyliadau ysgolion

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru, 'Hawliau, parch, cydraddoldeb' yn darparu canllawiau statudol i gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir ac awdurdodau lleol i helpu i fynd i'r afael â bwlio mewn lleoliadau addysg yng Nghymru a'i atal. Mae'r canllawiau'n amlinellu disgwyliadau Llywodraeth Cymru ar ysgolion i:

- gymryd ymagwedd ragweithiol i atal bwlio a hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol a pharchus rhwng staff a dysgwyr fel rhan o'u dull gweithredu ysgol gyfan at iechyd a lles;
- cael polisi gwrth-fwlio ar wahân, sy'n cysylltu â pholisïau ysgol ehangach, megis ymddygiad, diogelu, presenoldeb a disgyblaeth ac sy'n nodi'n glir y disgwyliadau ar gyfer ymddygiad cadarnhaol dysgwyr oddi ar safle'r ysgol;
- defnyddio'r diffiniadau o fwlio, a ddarperir yn y canllaw hwn, fel sail i'w diffiniad eu hunain a pholisi gwrth-fwlio'r ysgol;
- defnyddio'r diffiniad cytûn o fwlio mewn hyfforddiant staff a gwaith gwrth-fwlio o ddydd i ddydd gyda dysgwyr ac wrth egluro'r ddarpariaeth i rieni a gofalwyr;
- cofnodi a monitro achosion canfyddedig a gwirioneddol o fwlio yn eu hysgolion, yn unol â gofynion diogelu data perthnasol, i lywio hunanarfarnu a helpu'r ysgol i gymryd camau rhagweithiol i herio bwlio;
- adrodd am ddigwyddiadau a gofnodwyd i'r ALI pan ofynnir iddynt wneud hynny;
- adolygu eu polisi a'u strategaethau gwrth-fwlio yn rheolaidd mewn cydweithrediad â staff yr ysgol, dysgwyr, rhieni a gofalwyr.

Mae ALI Caerdydd hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion gymhwysu'r pwyntiau uchod i Droseddau Casineb, Digwyddiadau Casineb ac aflonyddu.

Dylai pob aelod o gymuned yr ysgol allu dangos ei ymrwymiad i fynd i'r afael â bwlio drwy bolisïau, arferion a phrosesau rheoli'r ysgol. Arfer gorau fyddai cynnwys disgyblion, rhieni a'r holl staff wrth ddatblygu'r polisi.

Rhaid i bob ysgol, yn ôl y gyfraith, gael polisi i atal pob math o fwlio ymhlith disgyblion.

Bydd angen i benaethiaid a chyrff llywodraethu fod yn hyderus bod eu polisïau'n cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r Ddeddf yn creu deddfwriaeth gwrth-wahaniaethu sy'n cwmpasu naw 'nodwedd warchoddedig'. Mae cyrff llywodraethu mewn ysgolion yn sicrhau bod polisi gwrth-fwlio eu hysgol yn

gyfredol ac yn cael ei weithredu'n effeithiol. Argymhellir bod llywodraethwr yn gyfrifol am gefnogi polisi Gwrth-fwlio.

7.2 Llunio polisi gwrth-fwlio, troseddau casineb, digwyddiadau casineb, aflonyddu ac 'arall'

Beth ddylai gael ei gynnwys ym mholisi eich ysgol?

“Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ysgolion ddatblygu eu polisi gwrth-fwlio fel dogfen polisi ar wahân, ond dylai fod yn gysylltiedig â pholisi ymddygiad yr ysgol, y mae'n rhaid i bob ysgol ei chael yn unol â gofynion y gyfraith.” Hawliau, parch, cydraddoldeb: Canllawiau statudol ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, tud 52.

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu model polisi gwrth-fwlio a rhestr wirio i gefnogi ysgolion gyda hyn. Rydym wedi datblygu polisiâu enghreifftiol a rhestr wirio ein hunain i gynnwys gwrth-fwlio, troseddau casineb, digwyddiadau casineb, aflonyddu ac 'arall'.

Dylid llunio'r polisi mewn ymgynghoriad â chymuned yr ysgol gyfan; staff addysgu, staff nad ydynt yn addysgu, llywodraethwyr, rhieni/gofalwyr a disgyblion. Dylai'r polisi y cytunwyd arno fod yn fyr, yn gryno ac wedi'i ysgrifennu mewn iaith y mae pawb yn ei deall; efallai y byddai ysgolion am ystyried llunio fersiwn sy'n addas i blant â phobl ifanc

Dylai gynnwys:

- diffiniad o fwlio; trosedd casineb, digwyddiadau casineb ac aflonyddu
- nodau ac amcanion;
- mesurau ataliol ysgol gyfan, technegau ymyrryd, cymorth cwricwlwm, polisi hyfforddi, polisi chwarae (yn dibynnu ar adnoddau);
- gweithdrefnau i'w dilyn – pwy i roi gwybod amdano, sut i gofnodi bwlio (gan gynnwys creu system er mwyn i ddisgyblion adrodd amdano'n gyfrinachol o bosibl) a chosbau;
- cysylltiadau â pholisiâu eraill megis polisiâu Diogelu, Presenoldeb, Perthynas Gadarnhaol/ Lles.

Dylid monitro ac adolygu'r polisi yn flynyddol.

Monitro a Gwerthuso

Cynghorir ysgolion i fonitro a gwerthuso eu polisiau eu hunain yn y ffyrdd canlynol:

- arolygon o ganfyddiadau disgyblion a staff;
- monitro digwyddiadau a chwynion;
- gwirio rhannau "cudd" o safle'r ysgol yn rheolaidd;
- cynnwys cynghorau ysgol a grwpiau llais y disgybl;
- monitro effeithiolrwydd polisi ac addasu strategaethau.

7.3. Cofnodi ar lefel ysgol

Mae MyConcern a'r Awdurdod Lleol wedi cydweithio i sicrhau bod y categorïau angenrheidiol ar gael ar MyConcern. Bydd disgwyl i ysgolion gofnodi'r holl ddigwyddiadau yn y categorïau a restrir isod. Cynigir hyfforddiant i bob ysgol er mwyn cefnogi'r broses hon.

Cofnodi categorïau ar MyConcern

1. Bwlio

1. corfforol
2. ar lafar
3. corfforol neu emosiynol
4. rhywiol
5. ar-lein (seiber)
6. sy'n gysylltiedig â rhagfarn

2. Trosedd Casineb

1. Anabledd
2. Hil
3. Crefydd Sectaraidd
4. Cyfeiriadedd rhywiol - Homoffobig
5. Hunaniaeth rhywedd - Trawsffobig
6. Casineb tuag at Wragedd / Dynion

3. Digwyddiadau Casineb

1. Anabledd
2. Hil
3. Crefydd
4. Cyfeiriadedd rhywiol - Homoffobig
5. Hunaniaeth rhywedd - Trawsffobig
6. Casineb tuag at Wragedd / Dynion

4. Aflonyddu

1. Aflonyddu
2. Aflonyddu rhywiol / Ymddygiadau rhywiol niweidiol
 - 2.1 Normal
 - 2.2 Amhriodol
 - 2.3 Problematig
 - 2.4. Camdriniol
 - 2.5 Treisgar

5. Arall

1. Dibwyllo
2. Arall

Bydd cadw cofnodion cywir o ddigwyddiadau yn galluogi ysgolion i wneud y canlynol:

- rheoli achosion unigol yn effeithiol;
- monitro a gwerthuso effeithiolrwydd strategaethau;
- dangos penderfyniadau amddiffynnol pe bai cwynion yn cael eu gwneud;
- ymgysylltu a hysbysu timau aml-asiantaeth yn ôl yr angen
- Llywio'r cwricwlwm fel dull addysgol.

Yn ogystal â gwybodaeth a gedwir am y math o ddigwyddiad a'r cymhelliant y tu ôl i'r ymddygiad, argymhellir bod y wybodaeth ganlynol yn cael ei chofnodi:

- crynodeb o'r digwyddiad;
- cysylltiad(au) i ddigwyddiadau blaenorol o dargedu unigolion neu grwpiau;
- ymyrraeth/ymyraethau y rhoddwyd cynnig arnynt;

- protocol digwyddiadau difrifol wedi'i actifadu;
- ymyrraeth yr heddlu;
- atafaelu eiddo personol (e.e. ffôn symudol);
- camau gweithredu a chanlyniadau dilynol;
- cyfleoedd dysgu;
- newidiadau o ran dulliau, polisïau neu weithdrefnau o ganlyniad i'r digwyddiad.

Rhaid i ysgolion sicrhau bod y wybodaeth y maent yn ei chofnodi, ei chadw a'i monitro, yn cydymffurfio â GDPR a chyfraith diogelu data.

Bydd y wybodaeth hon yn debygol o fod o gymorth i ysgolion yng nghyd-destun eu Dyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

7.4. Cyflwyno data i'r awdurdod lleol

Mae'r canllaw statudol ar gyfer ysgolion yn ei gwneud yn ofynnol i bob ysgol gofnodi ac adrodd ar achosion o fwlio mewn ysgolion. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i bob ysgol ac awdurdod lleol gofnodi ac adrodd ar bob digwyddiad canfyddedig sy'n gysylltiedig â nodwedd warchoddedig.

Bydd yr Awdurdod Lleol yn rhedeg adroddiadau **bob tymor** sy'n ymwneud â phob un o'r categorïau.

Diben rhoi gwybod am ddigwyddiadau yw er mwyn gallu casglu gwybodaeth am nifer a natur y digwyddiadau a nodi unrhyw dueddiadau sy'n datblygu. Bydd y wybodaeth yn cael ei defnyddio mewn ffordd gefnogol i ddatblygu a rhannu arfer da. Heb gasglu a chofnodi gwybodaeth, mae'n anodd cael darlun cywir o natur bwlio, troseddau casineb, digwyddiadau casineb ac aflonyddu neu fesur pa mor effeithiol yw strategaethau i fynd i'r afael â'r problemau hyn.

Proses

- Pob ysgol i gofnodi digwyddiadau ar MyConcern gan ddefnyddio'r categorïau y cytunwyd arnynt a restrir uchod
- Bydd yr awdurdod lleol yn rhedeg adroddiadau bob tymor
- Bydd y data'n cael ei ddadansoddi
- Trafodir y data yng nghyfarfodydd Sicrwydd Tîm Rheoli Addysg yr ALI bob tymor
- Bydd unrhyw gwestiynau sy'n codi o'r data yn cael eu trafod gyda Phartneriaid Gwella a fydd yn cysylltu â'u hysgolion

7.5. Cymorth gan Awdurdod Lleol Caerdydd

Mae'r Awdurdod Lleol yn annog pob ysgol i ddatblygu eu datganiadau polisi eu hunain ac i fonitro eu polisïau a'u gweithdrefnau. Bwriad y ddogfen ganllawiau hon yw adeiladu ar arferion da sy'n bodoli eisoes mewn ysgolion a chynorthwyo Llywodraethwyr, Penaethiaid a staff i adolygu eu polisïau presennol er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol yr ysgol. Mae rhai templedi wedi'u cynnwys yn yr adran gwybodaeth ychwanegol.

Mae ALI Caerdydd yn gofyn bod polisïau a gweithdrefnau yn cynnwys troseddau casineb, digwyddiadau casineb ac aflonyddu.

Bydd yr Awdurdod Lleol yn:

- rhoi gwybodaeth i ysgolion am sut i gael gafael ar ganllawiau a chymorth ar wrth-fwlio, troseddau casineb, digwyddiadau casineb, a pholisïau a strategaethau aflonyddu;
- codi ymwybyddiaeth o faterion bwlio, troseddau casineb, digwyddiadau casineb ac aflonyddu mewn ysgolion drwy hyfforddiant a digwyddiadau rhwydwaith;
- rhoi arweiniad a hyfforddiant i helpu i sefydlu gweithdrefnau adrodd a chofnodi effeithiol ac ymdrin ag achosion o fwlio, troseddau casineb, digwyddiadau casineb, ac aflonyddu mewn ysgolion;
- sicrhau bod ysgolion yn monitro achosion o fwlio, troseddau casineb, digwyddiadau casineb, ac aflonyddu mewn ysgolion drwy MyConcern;
- dadansoddi'r wybodaeth a gesglir gan ysgolion i nodi unrhyw faterion sy'n peri pryder penodol neu nodi tueddiadau neu faterion cydraddoldeb sy'n datblygu.
- cynghori ysgolion ar dueddiadau lleol drwy fonitro data, yn unol â gofynion diogelu data a chychwyn ymatebion neu ymyriadau fel y bo'n briodol
- lledaenu arfer da drwy ddigwyddiadau rhwydwaith;
- annog rhannu dulliau gwrth-fwlio, trosedd casineb, digwyddiadau casineb ac aflonyddu rhwng clystyrau ysgolion, ysgolion bwydo ac ysgolion uwchradd;
- darparu cymorth dilynol o ansawdd gan asiantaethau allanol lle bo'n briodol

8. CWYNIION

Complaints procedures

- 4.12 The Welsh Government expects local authorities to ensure all schools have appropriate complaints procedures in place.
- 4.13 If school governors are not available to make a decision regarding a complaint, the local authority may be required to step in to appoint suitable persons to do so.
- 4.14 In line with the complaints process, parents/carers may refer their complaint to the local authority if they believe the school and school governing body have not adhered fully to the process. Local authorities are expected to handle all complaints in line with the Welsh Government complaints process.

Dylid e-bostio unrhyw gwynion at y Tîm Cwynion Addysg.

Y Tîm Cwynion Addysg

CwynionAddysg@caerdydd.gov.uk

Gellir cael copi o'r Polisi Sylwadau, Cwynion a Chanmoliaeth Corfforaethol drwy'r ddolen ganlynol neu drwy gysylltu â'r Tîm Cwynion Addysg.

<http://vmweb22.cardiff.gov.uk/cis/documentuploads/01354/018877/9809/1.CM.047%20Corporate%20Comments%2C%20Complaints%20%26%20Compliments%20Policy.pdf>

GWYBODAETH A DOLENNI DEFNYDDIOL

1. Cymorth i Ysgolion

1.1 Cymorth gan yr ALL

1.2 Cymorth gan asiantaethau eraill

1.1. Cymorth gan yr Awdurdod Lleol

Cyngor a Chymorth i Deuluoedd Caerdydd

CyswlltCChD@caerdydd.gov.uk

Mae Cyngor a Chymorth i Deuluoedd Caerdydd yn cynnig ystod o wybodaeth, cyngor a chymorth i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Gall y tîm roi gwybodaeth a chynghor ar fywyd teuluol, ymddygiad plant, gofal plant, cymorth rhieni, presenoldeb yn yr ysgol, cyflogaeth ac arian a thai. Gall y tîm hefyd ddarparu cymorth ar gyfer pryderon iechyd meddwl a lles emosiynol y gallai plant a phobl ifanc eu profi o ganlyniad i berthnasoedd anodd neu heriol gartref ac yn yr ysgol.

I gael rhagor o wybodaeth am y cymorth sydd ar gael gallwch ffonio 0300 133 133, e-bostio CyswlltCChD@caerdydd.gov.uk neu fynd i'r wefan www.teuluoeddcaerdydd.co.uk

Gwasanaeth Seicoleg Addysg Seicoleg Addysg a Chwnsela mewn Ysgolion

Chris Alders - Chris.Alders@caerdydd.gov.uk

Mae'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg (EPS) yn dîm o seicolegwyr a hyfforddeion sy'n cymhwyso eu hyfforddiant, eu hymchwil a'u gwybodaeth am seicoleg a dulliau therapiwtig i gefnogi ysgolion. Eu nod yw meithrin yr amodau gorau posibl i blant a phobl ifanc ffynnu, dysgu a datblygu. Mae gan bob ysgol Seicolegydd Addysg dynodedig a fydd, drwy ymgynghori, yn cydweithio i sicrhau newid cadarnhaol i unigolion, grwpiau neu ar lefel ysgol gyfan. Gall hyn gynnwys; gwaith unigol, ymgynghoriadau grŵp, hyfforddiant staff ac ati.

Y Tîm Diogelu Addysg

Lynda Gallagher - DiogeluAddysg@caerdydd.gov.uk

Mae'r Tîm Diogelu Addysg yn cadw dysgwyr yn ddiogel wrth berfformio a derbyn addysg ledled Caerdydd, ac yn rhan o'r Gwasanaethau Plant. Mae'r tîm yn rhoi cyngor a chefnogaeth i holl ysgolion Caerdydd ar faterion diogelu, gyda'r cynnig wedi ei ymestyn i Ysgolion Annibynnol a cholegau Addysg Bellach yng Nghaerdydd ar sail ddewisol. Mae'r tîm yn cynnig ystod o raglenni hyfforddi ar gyfer Uwch Berson Dynodedig (ysgolion UBD) a Chyrff Llywodraethu. Gellir ymestyn eu pecynnau hyfforddi i leoliadau Annibynnol, Trydydd Sector a Chrefyddol.

Gweithio'n agos gyda'r Gwasanaethau Plant ac Ysgolion a mynychu'r Ganolfan Ddiogelu Amlasiantaeth (MASH). Presenoldeb yn y Gynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg (MARAC) ar gyfer Cam-drin/Trais Domestig a Masnachu Pobl; mae'r tîm yn debygol o gysylltu â Gweithwyr Cymdeithasol ac Ysgolion i drafod unrhyw blant a phobl ifanc. Adolygu a dosbarthu Polisi Model Amddiffyn Plant ar gyfer Ysgolion yn flynyddol.

Gwasanaeth Lles Addysg

Eleanor Jones – AtgyfeiriadauGLLA@caerdydd.gov.uk

Mae'r Gwasanaeth Lles Addysg (GLIA) yn cefnogi ysgolion, plant a'u teuluoedd i gynyddu cyflawniad drwy hyrwyddo lefelau uchel o bresenoldeb a phrydlondeb yn yr ysgol, gan weithio i atal triwantiaeth ac ymddieithrio o'r ysgol yn ogystal â sicrhau bod plant yn cael eu diogelu. Mae'r gwasanaeth yn gweithio drwy ddulliau ysgol gyfan, a thrwy ddarparu ymyrraeth gynnar a chymorth wedi'i dargedu i ddisgyblion a theuluoedd i fynd i'r afael â materion personol a chymdeithasol.

Mae gan bob ysgol uwchradd a'u hysgolion cynradd clwstwr Swyddog Presenoldeb Ysgol a fydd yn cefnogi plant a'u teuluoedd yn y lle cyntaf i ddatrys anawsterau o ran presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol a all gynnwys bwlio. Bydd y Swyddog Presenoldeb Ysgol yn cyfeirio at y GLIA os bydd y problemau'n parhau a bod angen cymorth ac ymyrraeth bellach. Gall y Gwasanaeth roi cyngor i rieni ar bob mater sy'n ymwneud â phresenoldeb neu fwlio yn ogystal â sut i geisio cyngor a chymorth gan asiantaethau eraill.

Tîm Iechyd a Lles Emosiynol

Rhian Davies – ILIE@caerdydd.gov.uk

Mae Iechyd a Lles Emosiynol (ILIE) yn cynnig cymorth pwrpasol i ddisgyblion, grwpiau a staff unigol ym mhob ysgol yng Nghaerdydd. Mae'r tîm yn gweithio'n agos gydag ysgolion i nodi a chefnogi disgyblion, llunio cynlluniau pontio, symud a reolir, cynlluniau cymorth bugeiliol a rhoi cyngor ar waharddiadau. Mae'r tîm yn canolbwyntio ar ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i sicrhau bod anghenion iechyd a lles emosiynol plant a phobl ifanc yn cael eu diwallu.

Mae gan bob ysgol Athro Arbenigol dynodedig a all eich arwain a rhoi hyfforddiant ar bolisi a strategaethau yn ogystal â chefnogi disgyblion yn uniongyrchol drwy ddull therapiwtig ac ymyriadau penodol. Mae'r tîm yn cynnig hyfforddiant i holl staff yr ysgol ar Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (ADHD), Ymlyniad a Thrawma, Meithrin, Chwarae yn seiliedig ar Feithrin Perthnasoedd, Gwydnwch Emosiynol, Ymwybyddiaeth Ofalgar, Perthnasoedd Cadarnhaol a Chefnogi Disgyblion Pryderus.

Y Gwasanaeth Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig a Theithwyr (EMTAS)

Gill James - GillJames@caerdydd.gov.uk

Mae'r Gwasanaeth Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig a Theithwyr yn cynnwys dau faes gwasanaeth; y Gwasanaeth Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig (**EMAS**) a'r Gwasanaeth Addysg i Deithwyr (**TES**). Mae'r ddau wasanaeth yn cydweithio fel y Gwasanaeth Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig a Theithwyr ac yn rhoi cymorth i wella cyflawniad disgyblion Lleiafrifoedd Ethnig a Sipsiwn/Teithwyr. Mae EMTAS yn gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion a chymunedau i godi disgwyliadau a safonau ac i hyrwyddo cynhwysiant pob disgybl trwy gynnig cyngor a hyfforddiant.

Tîm Cydraddoldeb

TîmCydraddoldeb@caerdydd.gov.uk

Mae'r Tîm Cydraddoldeb yn gyfrifol am roi cymorth a chyngor i Gyfarwyddiaethau'r Cyngor i helpu i sicrhau ein bod ni, fel sefydliad, yn cyflawni ein dyletswyddau Penodol a Chyffredinol a chynnwys cydraddoldeb ym mhopeth a wnawn.

Gwasanaethau Llywodraethwyr

Ruth Lock Gwasanaethau.Llywodraethwyr@caerdydd.gov.uk

Mae Gwasanaethau Llywodraethwyr yn gweithio gydag ysgolion i sicrhau llywodraethiant hynod effeithiol drwy gynnig cyngor, arweiniad, hyfforddiant, cymorth a her i benaethiaid, llywodraethwyr ysgol a chlercod cyrff llywodraethu. Mae'r tîm yn cynnig cyngor dibynadwy, prydlon a pherthnasol ar bob agwedd ar lywodraethiant ysgolion, gan gefnogi cadeiryddion llywodraethwyr, llywodraethwyr a chlercod yn eu rolau a'u galluogi i gydymffurfio â'r gyfraith.

Mae'r gwasanaeth hefyd yn gweithio'n agos gyda Chonsortium Canolbarth y De ar strategaethau gwella ysgolion, gan fonitro cynnydd ac wrth ddatblygu cyfleoedd hyfforddi a datblygu ar gyfer pob llywodraethwr. Mae rhaglen hyfforddi lawn ar gael ar bob maes llywodraethiant ysgolion gan gynnwys hyfforddiant ar-lein, sesiynau briffio a digwyddiadau. Mae gwybodaeth sy'n berthnasol i'w rôl hefyd yn cael ei rhannu gyda llywodraethwyr yn rheolaidd.

Tîm Ysgolion Iach

Karen Trigg - KTrigg@caerdydd.gov.uk

Mae Tîm Ysgolion Iach Caerdydd o fewn Gwasanaeth Addysg Caerdydd yn cefnogi holl ysgolion yr Awdurdod Lleol i gyflawni dull gweithredu ysgol gyfan o hyrwyddo iechyd a lles. Mae'r tîm yn hyrwyddo digwyddiadau cenedlaethol perthnasol drwy e-fwletinâu, cyfryngau cymdeithasol ac adnoddau cyfeirio. Mae'n annog ysgolion i gymryd dull gweithredu ysgol gyfan at les meddyliol ac emosiynol gan gynnwys: Polisi Gwrth-fwlio / Parch gyda mewnbwn disgyblion a fersiynau sy'n addas i blant.

Tîm Plant sy'n Derbyngofal mewn Addysg

Nicola Holder - TimPDGA@caerdydd.gov.uk

Mae'r Tîm Plant sy'n Derbyngofal mewn Addysg yn gaalu darparu pwynt cyswllt cyntaf a gwasanaeth cyswllt i ysgolion, gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr cymdeithasol sy'n goruchwyllo a gofalwyr maeth, gan sicrhau dull gweithredu amlasiantaeth cydgysylltiedig i roi Plant sy'n Derbyngofal ar ben y ffordd tuag at lwyddiant. Ei bwrpas yw cynorthwyo Plant sy'n Derbyngofal â phob agwedd ar eu haddysg, monitro ac adrodd ar eu cyflawniadau, a'u cynorthwyo i oresgyn unrhyw rwystrau i lwyddiant, gan sicrhau eu bod yn cyflawni eu potensial yn llawn. Mae'n gweithio i wella presenoldeb a chyrhaeddiad, monitro ac olrhain y Cynlluniau Addysg Personol a monitro cynnydd disgyblion (ym mhob Cyfnod Allweddol).

Mae'n cefnogi ysgolion, y gwasanaeth plant a gofalwyr maeth gyda derbyn i'r ysgol, materion sy'n codi yn yr ysgol a allai fod angen cymorth arbenigol ac yn hyrwyddo lles yn gadarnhaol drwy nodi oedolyn allweddol yn yr ysgol. Mae pob plentyn sy'n derbyn gofal gan Gaerdydd yn rhan o draciwr Rhithwir PDGA. Mae ganddynt hefyd gofnod o'r plant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau eraill sy'n mynychu Ysgolion Caerdydd. Cynigir hyfforddiant i bob ysgol a Llywodraethwr ar 'Ysgolion sy'n Dda i Blant sy'n Derbyngofal'.

Cyfranogiad Disgyblion/Dinasoedd sy'n Dda i Blant

Lee Patterson LeePatterson@caerdydd.gov.uk

Mae Caerdydd sy'n Dda i Blant yn gweithio gydag ysgolion a chymunedau i wella gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o hawliau plant y tu mewn a'r tu allan i'r ysgol. Mae'n gweithio gydag UNICEF i gyflwyno'r Wobr Ysgolion sy'n Parchu Hawliau'n ar draws y ddinas. Y nod yw creu lleoedd diogel ac ysbrydoledig i ddysgu, lle y caiff plant eu parchu, caiff eu talentau eu meithrin a lle y gallant ffynnu.

Gwasanaeth Ieuentid

Philip Norton pnorton@caerdydd.gov.uk

Mae Gwasanaeth Ieuentid Caerdydd yn darparu gwasanaeth i bobl ifanc 11-16 oed. Rydym yn cynnal Proffil Asesu Bregusrwydd ar gyfer pob ysgol dair gwaith y flwyddyn, i nodi'r bobl ifanc hynny sydd mewn perygl o ymddieithrio rhag addysg ac sydd mewn perygl o beidio â phontio'n gadarnhaol ar ôl 16 oed. Mae pobl ifanc sy'n cael eu hatgyfeirio yn ymgymryd ag ymyriad gyda mentor ieuentid sy'n datblygu cynllun gweithredu sy'n cael ei yrru gan dargedau i fynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n eu rhoi mewn perygl. Mae pob aelod o staff yn gymwys yn broffesiynol ac wedi'i gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg.

Cydlyniant Cymunedol

Nick Olsen - Nicholas.Olsen2@caerdydd.gov.uk

Roxanne Bainbridge - Roxanne.Bainbridge@caerdydd.gov.uk

Adam Poole Adam.Poole@cardiff.gov.uk

Cohesion@cardiff.gov.uk

Mae Tîm Cydlyniant Cyngor Caerdydd yn chwarae rhan bwysig wrth ddathlu agweddau cadarnhaol at amrywiaeth, cefnogi grwpiau ymylol, a helpu pawb yn ein cymunedau i fyw'n gytûn. Mae'r tîm yn nodi problemau posibl a thensiynau sy'n codi ac yn sicrhau bod y rhain yn cael eu lliniaru'n effeithiol cyn iddynt gael cyfle i gynyddu.

Atal

Tom Noaks Thomas.noaks3@caerdydd.gov.uk

Mae Tîm Atal Caerdydd yn rhoi cyngor a chymorth i ysgolion sydd â phryderon ynghylch plant neu bobl ifanc sy'n agored i gael eu paratoi at bwrpas eithafiaeth, radicaleiddio neu derfysgaeth. Mae'r tîm yn gweithio mewn partneriaeth â phob lleoliad addysg ar draws y ddinas o'r blynyddoedd cynnar i leoliadau addysg uwch a phellach gan ddarparu cyfleuster 'gwirio' pe bai gan yr ysgol unrhyw bryderon a nodwyd.

Mae'r tîm yn cefnogi proses y panel Channel (panel diogelu amlasiantaethol atal) a hefyd yn cynnig ystod o hyfforddiant e.e. y Cyflwyniad i Atal Lefel 1 neu 2 a Gweithdy i Godi Ymwybyddiaeth o Atal (statudol i bob aelod o staff). Mae'r tîm hefyd yn cefnogi'r gwaith o hwyluso prosiectau perthnasol a ariennir gan y Swyddfa Gartref i staff a myfyrwyr. Mae'r tîm yn gweithio'n agos ar draws yr awdurdod mewn partneriaeth â'r gwasanaeth er mwyn ymgorffori Atal yn gadarn o fewn y maes diogelu.

Tîm Derbyn i Ysgolion

DerbyniadauCynradd@caerdydd.gov.uk

DerbyniadauUwchradd@caerdydd.gov.uk

MyConcern

Ar gyfer ymholiadau/cymorth technegol ffoniwch 0330 66 00 767

Support@thesafeguardingcompany.com

Mae cymorth rheng flaen ar gael rhwng 08.30 a 17.00 o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Erbyn hyn mae gan bob ysgol yng Nghaerdydd feddalwedd diogelu MyConcern. Fe'i defnyddir hefyd gan dimau Gwasanaeth Ieuenctid, Cynhwysiant ac Addysg Heblaw yn yr Ysgol yr ALI.

Mae MyConcern yn system syml a diogel ar gyfer cofnodi a rheoli'r holl bryderon diogelu, bugeliol a lles.

Gall staff gofnodi a rheoli unrhyw bryderon diogelu wrth iddynt ddigwydd. Wedi'i integreiddio â SIMS, mae MyConcern yn tynnu'r wybodaeth berthnasol am fyfyrwyr o SIMS i greu proffil myfyriwr yn MyConcern. Anfonir hysbysiadau awtomatig at yr arweinydd diogelu dynodedig pan ychwanegir unrhyw bryderon newydd gan ddefnyddwyr. Mae MyConcern yn galluogi i ddarlun cyflawn o les a diogelwch unigolyn gael ei gadw mewn un lle, yn lleihau'r angen am gofnodion papur ac yn canoli'r holl wybodaeth berthnasol ac ategol.

Bydd yr holl gategoriâu bwlio, troseddau casineb, digwyddiadau casineb ac aflonyddu yn cael eu diweddarau at ddibenion cofnodi yn MyConcern. Gellir creu adroddiadau ar unrhyw gyfuniad o gategoriâu o bryder neu wybodaeth am fyfyrwyr dros gyfnod penodol neu ddeinamig. Mae adroddiadau nodweddiadol y gall ysgolion eu rhedeg yn cynnwys dadansoddiad o 'gyfanswm pryderon fesul mis', 'pryderon yn ôl categori', ac ati.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau yn ymwneud â MyConcern mewn perthynas â'r canllawiau hyn, cysylltwch â scadwalladr@caerdydd.gov.uk

1.2 Asiantaethau cymorth, adnoddau a sefydliadau eraill

Mae'r awgrymiadau canlynol ar gyfer gwybodaeth ac arweiniad. Nid yw Cyngor Caerdydd o reidrwydd yn cymeradwyo'r holl safbwyntiau a fynegwyd gan y sefydliadau hyn.

- Eiriolaeth
- Cymorth i Ddiodefwr
- Swyddogion Heddlu Cymuned Ysgolion a Swyddogion SchoolBeat

- Bwlio
- Bwlio Ar-lein
- LHDT
- Hiliaeth
- Iechyd Meddwl a Lles
- Trosedd Casineb
- Aflonyddu rhywiol ar-lein
- Gweithdrefn gwyno ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion

Eiriolaeth

Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol

Samantha Anderson Samantha.Anderson@nyas.net

Mae'r Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS) yn elusen yn y DU sy'n cynnig gwybodaeth, cyngor, eiriolaeth a chynrychiolaeth gyfreithiol i'r plant a'r bobl ifanc fwyaf agored i niwed. Y gwaith craidd a wneir gan NYAS yw'r gwasanaeth eiriolaeth. Mae eiriolwyr yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc sy'n destun cynlluniau amddiffyn plant, plant sy'n derbyn gofal, pobl sy'n gadael gofal, y rhai sy'n derbyn gofal a chymorth neu sydd ag anabledd neu angen arbennig.

Mae gan blant a phobl ifanc yr hawl i Eiriolwr annibynnol a fydd yn sicrhau bod eu hawliau'n cael eu cynnal, bod eu barn, eu dymuniadau a'u teimladau'n cael eu parchu, a chlywir eu lleisiau. Mae NYAS hefyd yn gweithredu llinell gymorth genedlaethol sydd ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 9am-8pm. Mewn perthynas ag ysgolion, mae'r materion eiriolaeth yr ymdrinnir â hwy yn cynnwys bwlio, gwahardd a newid ysgolion.

Mae Gwasanaethau Plant Caerdydd yn comisiynu NYAS i ddarparu gwasanaeth cyfranogi (Bright Sparks) i blant a phobl ifanc 11-25 oed sy'n derbyn gofal a chymorth ganddynt. Prif amcan y grŵp yw sicrhau y rhoddir cyfle i blant a phobl ifanc leisio eu barn a chymryd rhan weithredol yn y gwaith o lunio polisiau a darpariaeth gwasanaethau o fewn y Cyngor ac yn allanol.

Mae Bright Sparks hefyd yn fforwm cefnogaeth gan gymheiriaid i blant a phobl ifanc â phrofiad o ofal, gan roi cyfleoedd iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol, cyfleoedd cyfranogi eraill a llwybrau cymorth. Mae Swyddog Cyfranogiad NYAS Cymru yn hwyluso sesiynau grŵp bob pythefnos sy'n cael eu cynnal ar-lein ers pandemig Covid 19.

Yn flaenorol, cynhaliwyd cyfarfodydd yn swyddfeydd y gwasanaethau plant, gyda gweithgareddau cymdeithasol yn cael eu cynnal yn y gymuned mewn lleoliadau sy'n hygyrch i blant a phobl ifanc. Bydd Bright Sparks yn dychwelyd i'r model hwn ar ôl i'r cyfyngiadau symud lacio ymhellach.

Cymorth i Ddioddefwyr

Mae Cymorth i Ddioddefwyr Cymru yn gweithredu'r Ganolfan Genedlaethol Adrodd am Droseddau Casineb a Chymorth yng Nghymru.

- Ffoniwch 24/7 0300 3031 982
- E-bostiwch Hate.CrimeWales@victimsupport.org.uk

Swyddogion Heddlu Cymuned Ysgolion a Swyddogion SchoolBeat

Tîm Cyswllt Ysgolion Heddlu De Cymru

- Catherine Lewis - Catherine.Lewis@south-wales.police.uk

I gysylltu â' Swyddog Heddlu eich Cymuned Ysgol

- communication@schoolbeat.org

Mae Llywodraeth Cymru a'r pedwar Heddlu yng Nghymru yn ariannu Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru ar y cyd, sy'n gweithredu ym mhob ysgol gynradd ac uwchradd. Mae Swyddogion Heddlu Cymuned Ysgolion yn gweithio'n agos gydag ysgolion i ddarparu addysg ar gamddefnyddio sylweddau a materion diogelwch cymunedol a phersonol ehangach ym mhob cyfnod allweddol o'r cwricwlwm, ymhlith ystod o wersi eraill.

Yn ogystal, mae SchoolBeat Cymru yn darparu gwybodaeth ac adnoddau i ddisgyblion, athrawon, rhieni a phartneriaid i atgyfnerthu'r negeseuon allweddol a gyflwynir gan y Swyddogion. Mae'r wefan yn canolbwyntio ar dair prif thema'r rhaglen: camddefnyddio cyffuriau a sylweddau; diogelwch personol a diogelu; ac ymddygiad cymdeithasol a chymuned. [SchoolBeat: Hafan](#)

Prosiect Sbectrwm Hafan Cymru

Datblygwyd gan: Hafan Cymru

Mae hwn yn adnodd rhad ac am ddim a ariennir gan Lywodraeth Cymru sydd ar gael i ysgolion cynradd ac uwchradd ledled Cymru.

Nodau Sbectrwm: Hyrwyddo pwysigrwydd perthnasoedd iach a chodi ymwybyddiaeth plant am faterion trais a cham-drin mewn ffordd sy'n briodol i oedran ac yn ddiogel. Gellir cynnig sesiynau ar-lein ac wyneb yn wyneb ac ymdrinnir â nifer o bynciau. Mae sesiynau ar gael yn Gymraeg.

- [Croeso i wefan Prosiect Sbectrwm - Spectrum \(spectrumproject.co.uk\)](http://spectrumproject.co.uk)

Bwlio

Canllawiau Llywodraeth Cymru ar wrth-fwlio

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu cyfres o ganllawiau, adnoddau a phecynnau cymorth i helpu i atal bwlio mewn ysgolion. Mae hyn yn cynnwys; Canllawiau i rieni a gofalwyr, canllawiau i blant a phobl ifanc, ysgolion, cyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol

- <https://llyw.cymru/bwlio-yn-yr-ysgol>

Estyn

Adnoddau ac adroddiadau gan gynnwys arfer gorau

www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/gweithredu-ar-fwlio-mehefin-2014?_ga=2.107176069.686503114.1635255714-1350007796.1635255714

Mae Fframwaith Arolygu Estyn yn cynnwys cysylltiadau clir o ran atal bwlio mewn dau o'r meysydd arolygu sef:

- lles ac agweddau at ddysgu
- gofal, cymorth ac arweiniad.

Cadw Dysgwyr yn Ddiogel - Llywodraeth Cymru

Rôl awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a pherchnogion ysgolion annibynnol o dan Ddeddf Addysg 2002. Ebrill 2021

- [210419-cls-the-role-of-local-authorities-governing-bodies-and-proprietors-of-independent-schools-under-the-education-act.pdf](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/41419/210419-cls-the-role-of-local-authorities-governing-bodies-and-proprietors-of-independent-schools-under-the-education-act.pdf)

Ymgyrch Gwrth-fwlio Gwobr Diana

Mae Ymgyrch Gwrth-fwlio Gwobr Diana yn cynnwys nifer o brosiectau gwahanol sydd â'r nod o leihau bwlio mewn ysgolion. Un o'i phrif brosiectau yw'r rhaglen Llysgenhadon Gwrth-fwlio sydd wedi hyfforddi dros 24,000 o bobl ifanc ar draws y DU i arwain ymgyrchoedd gwrth-fwlio yn eu hysgolion.

- <https://diana-award.org.uk/anti-bullying>
- Ffôn: 020 3934 2160

Agweddau Cymdeithasol ac Emosiynol ar Ddysgu (SEAL)

Mae SEAL yn darparu ethos ysgol gyfan a dull seiliedig ar y cwricwlwm o leihau bwlio mewn ysgolion. Mae'r wefan yn cynnig mynediad i weithwyr addysg proffesiynol at holl ddeunyddiau cwricwlwm cenedlaethol SEAL, canllawiau athrawon a deunyddiau datblygiad proffesiynol, adroddiadau cenedlaethol a

gwerthusiadau. Mae'r wefan hefyd yn cynnig cyfle i staff rannu newyddion, arfer da, adnoddau ac arbenigedd.

- <http://www.sealcommunity.org>

Rhaglen Gwrth-fwlio KiVa

Mae Rhaglen Gwrth-fwlio KiVa yn rhaglen sy'n seiliedig ar ymchwil sydd wedi'i datblygu ym Mhrifysgol Turku, y Ffindir. Mae'r rhaglen yn cynnwys gwersi ar emosiynau, perthnasoedd iach ac ymatebion gwylwyr i fwlio. Mae'r rhaglen hefyd yn amlinellu protocol penodol i staff ysgolion ei ddilyn pan fyddant yn dod ar draws achosion o fwlio. Y Ganolfan Ymyrraeth Gynnar Seiliedig ar Dystiolaeth ym Mhrifysgol Bangor yw Partner Trwydded Swyddogol Prifysgol Turku ac mae'n cynnig dau fath o hyfforddiant ar gyfer Rhaglen Gwrth-fwlio KiVa: Hyfforddiant KiVa i ysgolion a hyfforddiant KiVa i hyfforddwyr. Mae darparwyr hyfforddiant hefyd ar gael yn Ne Cymru.

- KiVa Rhyngwladol: www.kivaprogram.ne
- KiVa, Canolfan Ymyrraeth Gynnar Seiliedig ar Dystiolaeth, Prifysgol Bangor: <https://www.bangor.ac.uk/psychology/cebei/kiva.php.en>

Mae'r Anti-Bullying Alliance

Mae'r Anti-Bullying Alliance (ABA) yn dod â thros 130 o sefydliadau ynghyd mewn un rhwydwaith gyda'r nod o leihau bwlio a chreu amgylcheddau mwy diogel lle gall plant a phobl ifanc fyw, tyfu, chwarae a dysgu.

Mae'r ABA yn cynhyrchu adnoddau ac offer i helpu ysgolion ac awdurdodau lleol i ddatblygu strategaethau gwrth-fwlio. Sefydlwyd yr ABA gan yr NSPCC a Biwro Cenedlaethol y Plant yn 2002 ac fe'i cynhelir gan Fiwro Cenedlaethol y Plant

- www.anti-bullyingalliance.org.uk

Act Against Bullying

Elusen genedlaethol sy'n tynnu sylw at fathau newydd o fwlio, yn enwedig bwlio drwy allgáu cymdeithasol.

- www.actagainstbullying.com/
- Ffôn: 0845 230 2560

Bullies Out

Elusen gwrth-fwlio yw hon sy'n seiliedig yng Nghymru a all gynnig help, cefnogaeth a gwybodaeth i unigolion, ysgolion, lleoliadau ieuencid a chymunedol y mae bwlio yn effeithio arnynt.

- www.bulliesout.com

Kidscape

Mae'n darparu hyfforddiant i weithwyr proffesiynol, cyrsiau i blant sy'n cael eu bwlio, llinell gymorth i rieni a gofalwyr plant sy'n cael eu bwlio; llyfrau, fideos, llyfrynau am ddim a thafenni am atal bwlio, llawer ohonynt mewn sawl iaith.

- www.kidscape.org.uk
- Ffôn: 020 7730 3300

Llinell Gymorth Fwlio Genedlaethol

Mae'r Llinell Gymorth Fwlio Genedlaethol yn cynnig cymorth a chyngor ymarferol i blant ac oedolion sy'n delio â bwlio mewn ysgolion neu waith.

- www.nationalbullyinghelpline.co.uk/
- Ffôn: 0854 22 55 787

Bully Free Zone

Mae'n darparu gwasanaeth cyfryngu gan gymheiriaid, cyngor ysgrifenedig a thros y ffôn, ac yn darparu hyfforddiant i blant a phobl ifanc, rhieni, athrawon, gweithwyr ieuencid a gweithwyr proffesiynol eraill.

- www.bullyfreezone.co.uk
- Ffôn 01204 454958

Plant yng Nghymru

Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o fwlio ac ymddygiadau bwlio, ac i feithrin cydlyniant rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'r gwaith yn cynnwys Cydlynu'r Grŵp Atal Ymddygiadau Bwlio, dylanwadu ar bolisi a strategaeth ynghylch bwlio, hyfforddiant ar seiberfwlio.

- www.childreninwales.org.uk/our-work/bullying/

Comisiynydd Plant Cymru

- <https://www.childcomwales.org.uk/anti-bullying-resources/>

Teachers TV

Mae adran o wefan Teachers TV yn llawn adnoddau gwrth-fwlio, sy'n cynnwys rhaglenni y gellir eu gwyllo ar-lein, adnoddau y gellir eu lawrlwytho, dolenni a chyfweiliadau gydag arbenigwyr ar fwlio.

- www.teachers.tv/bullying

Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau: Bwlio sy'n gysylltiedig â rhagfarn

Canllawiau ar fwlio sy'n gysylltiedig â rhagfarn, gan gynnwys bwlio homoffobig, bwlio hiliol, bwlio ar sail ffydd, bwlio ar sail anabledd, bwlio rhywiaethol a bwlio trawsffobig.

- www.nasuwat.org.uk

Seiberfwlio

Cyberbullying.org

Mae gan wefan gyntaf y byd sy'n ymroddedig i seiberfwlio ddigon o gyngor defnyddiol ar fynd i'r afael â seiberfwlio, gan gynnwys sut i gymryd sgrinluniau o fwlio ar-lein i gasglu tystiolaeth.

- www.cyberbullying.org/

Chatdanger

Gwefan sy'n ymdrin â pheryglon posibl ar-lein (gan gynnwys bwlio) a chyngor ar sut i sgwrsio'n ddiogel ar-lein.

- www.chatdanger.com

Internet Matters

Cyngor ar faterion ar-lein i rieni/gofalwyr a phlant a phobl ifanc.

- www.internetmatters.org.uk

Bwlio Ar-lein

Mae'n darparu gwasanaeth cynghori ar e-bost i blant a phobl ifanc yn ogystal â chymorth a gwybodaeth ar-lein, i ysgolion yn ogystal â disgyblion

- www.bullying.co.uk

NSPCC

Beth i gadw llygad amdano a sut i ddelio â seiberfwlio. Cyngor i rieni a phobl ifanc.

- www.nspcc.org.uk/what-is-child-abuse/types-of-abuse/bullying-and-cyberbullying/#cyberbullying.

Websafe Crackers: IH8U

Gwefan i blant a phobl ifanc sy'n canolbwyntio ar seiberfwlio a sut i ddelio â cham-drin drwy gyfrwng ffonau. Mae'n rhad ac am ddim i e-bostio, sgwrsio, ffonio neu anfon neges destun atynt am gyngor.

- www.websafecrackerz.com/ih8u.aspx

Wired Safety

Grŵp diogelwch a chymorth ar-lein mwyaf y byd. Mae ganddo awgrymiadau ar sut i atal seiberfwlio, ynghyd â gwybodaeth am wefannau poblogaidd fel bebo.com.

- www.wiredsafety.org

NCH

Elusen flaenllaw i blant sy'n ymroddedig i gefnogi plant sy'n agored i niwed. Mewn partneriaeth â Tesco Mobile, mae NCH wedi cynhyrchu ymchwil gwerthfawr ar fwlio drwy gyfrwng negeseuon testun a gwybodaeth am ddiogelwch dros y ffôn a'r Rhyngwrwd.

- www.nch.org.uk

Childnet International

Mae'n cynghori ar ddiogelwch ar y Rhyngwrwd ac mae ganddo amrywiaeth o daflenni ar gyfer plant a rhieni mewn nifer o ieithoedd, gan gynnwys Hindi, Pwnjabeg a Maltaidd.

- www.childnet-int.org

ATL: Cyberbullying

Mae'r daflen ffeithiau hon yn esbonio problem seiberfwlio, pa gamau y dylai athrawon eu cymryd os ydynt yn destun seiberfwlio, a'r hyn y dylai ysgolion ei wneud i fynd i'r afael â'r problem.

- www.atl.org.uk/publications-and-resources/factsheets/cyberbullying.asp

LGBT

Stonewall Cymru

Mae **Stonewall Cymru** yn sefydliad cydraddoldeb LHD sydd ag arbenigedd sylweddol mewn bwlio LHD mewn ysgolion, safle ieuenctid pwrpasol, adnoddau ar gyfer ysgolion, a hyfforddiant arbenigol i athrawon.

- www.stonewall.org.uk

Schools Out!

Mae'n cynnig cyngor ymarferol, adnoddau (gan gynnwys cynlluniau gwersi) a hyfforddiant i ysgolion ar gydraddoldeb LHDT mewn addysg.

- www.schools-out.org.uk

Educational Action Challenging Homophobia (EACH)

Fe'i sefydlwyd i herio gwahaniaethu ar sail rhywedd a chyfeiriadedd rhywiol. Llinell Gymorth Genedlaethol i bobl ifanc sy'n profi bwlio homoffobig: (Dydd Llun i ddydd Gwener, 10am–5pm; Dydd Sadwrn, 10am–canol dydd).

- Llinell Gymorth: 0808 1000143
- <https://each.education/>

Umbrella Cymru

Mae'n cynnig cymorth, cyngor, arweiniad a hyfforddiant i bobl ifanc, teuluoedd a gweithwyr proffesiynol am unrhyw beth sy'n ymwneud â rhywedd, amrywiaeth rywiol, hunaniaeth neu gydraddoldeb.

- www.umbrellacymru.co.uk
- Ffôn: 0300 302 3670 / 07860039527

Mermaids

Mae'n cefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd trawsryweddol a rhywedd-amrywiol a gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â'u gofal.

- <https://mermaidsuk.org.uk/>
- Llinell gymorth gyfrinachol: 0808 801 0400

CLIConline

Mae gwasanaeth gwybodaeth a chyngor cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer pobl ifanc rhwng 11 a 25 oed yn darparu gwybodaeth am fwlio ar sail cyfeiriadedd rhywiol a bwlio homoffobig.

- www.cliconline.co.uk

Hiliaeth

Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth

Yn darparu adnoddau a gweithdai i ysgolion addysgu pobl ifanc, gan ddefnyddio'n aml broffil uchel pêl-droed mewn perthynas â hiliaeth.

- www.theredcard.org/education/

Kick it Out

Mae'n defnyddio apêl pêl-droed i addysgu pobl ifanc am hiliaeth a darparu pecynnau addysg i ysgolion.

- www.Kickitout.org

Iechyd Meddwl a Lles

YoungMinds

Cymorth i helpu i wella iechyd meddwl plant a phobl ifanc.

- www.youngminds.org.uk
- Ffôn: 0808 802 5544 (llinell gymorth rhieni/gofalwyr)

Amser i Newid Cymru

Ymgyrch ar gyfer pobl ifanc, sy'n ceisio newid agweddau tuag at iechyd meddwl, rhoi terfyn ar stigma a gwahaniaethu.

- www.timetochangewales.org.uk/en/mental-health-stigma/young-people/wecanwewill

Kooth

Llwyfan cwnsela a lles emosiynol ar-lein i blant a phobl ifanc.

- www.kooth.com

Heads Above The Waves

Cymorth i blant a phobl ifanc sy'n dioddef iselder neu hunan-niweidio.

- <http://hatw.co.uk/straight-up-advice>

Childline

Mae'n cynnig llinell gymorth 24 awr a gwasanaeth cwnsela am ddim i blant mewn trallod neu berygl.

- www.childline.org.uk
- Tel: 0800 1111

Meic

Meic yw'r gwasanaeth llinell gymorth i blant a phobl ifanc hyd at 25 oed yng Nghymru. Ariennir y gwasanaeth gan Lywodraeth Cymru ac mae'r wefan yn cynnwys adnoddau ysgolion a gwersi ar themâu fel bwlio (gan gynnwys bwlio ar-lein), iechyd meddwl, perthnasoedd iach ac iechyd rhywiol.

- Gwefan: <https://www.meiccymru.org/cym/>
- Rhadffon: 0808 80 23456 55

Byw heb ofn

- 0808 8010800
- <https://llyw.cymru/byw-heb-ofn>

Trosedd Casineb

Cymorth i Ddiodefwyr: Pecyn cymorth troseddau casineb

Pecyn cymorth, sy'n addas i ddisgyblion 10-16 oed, i godi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth o'r cyfreithiau sy'n ymwneud â throseddau casineb. Bydd yn galluogi dysgwyr a'u teuluoedd i siarad yn hyderus am nodweddion gwarchoddedig ac i ddathlu gwahanol werthoedd, diddordebau a chefnidiroedd pobl eraill. Gall ymarferwyr neu rieni/gofalwyr ei arwain ac mae'n cynnwys cyflwyniad, fideo wedi'i animeiddio a phecyn gwybodaeth

- [Repository - Hwb \(gov.wales\)](#)

Adnodd addysgol prosiect ymwybyddiaeth o drosedd casineb: Wedi sylwi, wedi sôn, wedi setlo

Mae'r adnoddau hyn wedi'u cynllunio ar gyfer disgyblion 11-16 oed. Gellir defnyddio'r adnoddau ar y cyd neu'n unigol yn ystod gwersi i dynnu sylw at Droseddau Casineb fel problem a chodi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd adrodd am droseddau casineb. Mae gan bob gweithgaredd wybodaeth ac adnodd/adnoddau.

- [Ystorfa - Hwb \(llyw.cymru\)](#)

Aflonyddu rhywiol ar-lein

"Dim ond Jôc?" pecyn cymorth (plant 9-12 oed)

Adnoddau i gefnogi ymarferwyr i fynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol ar-lein rhwng cyfoedion a phobl ifanc 9-12 oed mewn ffordd briodol a diddorol. Mae'r pecyn yn cynnwys ffilm a thafleini wedi'u hanelu at rieni a gofalwyr.

'Pecyn cymorth 'Codi Llaw, Codi Llais' (pobl ifanc 13-17 oed)

Mae'r pecyn cymorth 'Codi Llaw, Codi Llais' ar gyfer ymarferwyr yn cynnwys canllawiau a chyfres o gynlluniau gwersi a gweithgareddau a gynlluniwyd i fynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol ar-lein ymhlith pobl ifanc 13-17 oed.

Delweddau rhywiol

- <https://hwb.gov.wales/api/storage/aea1c84f-ff05-4980-baf4-65491735b5bc/sharing-nudes-and-semi-nudes-guidance-for-education-settings-in-wales-final-merged-web-w-151220.pdf> (llyw.cymru) Dogfen ganllawiau rhif: 266/2020, Dyddiad cyhoeddi: Rhagfyr 2020
- Rhannu lluniau noeth a lluniau hanner noeth: sut mae ymateb i ddigwyddiad (llyw.cymru)

Gweithdrefnau Cwyno LIC ar gyfer Cyrff Llywodraethu Ysgolion yng Nghymru

Cylchlythyr Llywodraeth Cymru rhif: 011/2012, Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2012

- <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/gweithdrefnau-cwyno-ar-gyfer-cyrff-llywodraethu-ysgolion-yng-nghymru.pdf>

2. Templedi

2.1. Polisi enghreifftiol ar Fwlio

2.2 Polisi enghreifftiol ar gyfer Trosedd casineb, digwyddiadau casineb, aflonyddu ac 'arall'

2.3 Rhestr wirio ar gyfer llunio polisi gwrth-fwlio, **troseddau casineb, digwyddiadau casineb, aflonyddu ac 'arall'**

2.4 Enghraifft o Ffurflen Ddigwyddiadau, **wedi'i haddasu o dempled LIC ar gyfer bwlio**

2.1 Polisi Gwrth-fwlio Enghreifftiol

Mae'r ddogfen hon yn bolisi enghreifftiol a grëwyd gan Gyngor Caerdydd mewn ymateb i Ganllawiau Llywodraeth Cymru; 'Hawliau, parch, cydraddoldeb: Canllawiau statudol ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir' (Cyhoeddwyd Tachwedd 2019)

Mae'n cynnwys rhestr wirio ar gyfer datblygu Polisi Gwrth-fwlio a Pholisi Troseddau Casineb, Digwyddiadau Casineb ac Aflonyddu (2 dudalen) a Ffurflen cofnodi digwyddiadau (3 tudalen).

MAE'N BWYSIG DEFNYDDIO'R POLISI HWN AR Y CYD Â'R POLISI GWRTH-GASINEB ACHOSION/TROSEDDAU AC AFLONYDDU

Datblygu Polisi Gwrth-fwlio

Pwyntiau pwysig i'w cofio wrth ddatblygu polisi Gwrth-fwlio Ysgol Gyfan yn eich ysgol:

Ymgynghoriad -

- Sefydlu grŵp ymgynghori sy'n cynnwys cynrychiolwyr o gymuned yr ysgol gyfan i gytuno ar ddiffiniadau, deall y broblem a chytuno ar arfer/gweithdrefn.
- Penodi person enwebedig gydag awdurdod dirprwyedig a chyfrifoldeb i reoli materion i gydlynu'r grŵp.
- Mae cymorth i rieni/gofalwyr yn aml yn allweddol i lwyddiant neu fethiant o ran mentrau gwrth-fwlio. Mae'r rhan fwyaf o rieni a gofalwyr yn cefnogi mesurau gwrth-fwlio ac maent yn awyddus i gymryd rhan.

Atal -

- Ystyried cynnwys y cwricwlwm, adnoddau, ymyriadau a gweithgareddau sydd â'r nod o godi ymwybyddiaeth a mynd i'r afael â bwlio.
- Diwygio'r polisi enghreifftiol fel y bo'n briodol i fodloni'r nodau a'r dyheadau a nodwyd gan eich grŵp ysgol.

Cadw Cofnodion yn Effeithiol -

- Dylid cael fframwaith ar gyfer ymateb yn effeithiol gyda chanllawiau clir ar gyfer rhieni/gofalwyr.
- Dylai'r polisi fod yn gyson â pholisïau eraill yr ysgol, a'u croesgyfeirio lle bo hynny'n briodol.
- Dylai fformat a chyflwyniad y polisi ei wneud yn hygyrch i bob defnyddiwr. (ystyriwch fersiwn sy'n addas i blant.)

Datblygu ac Adolygu -

- Dylai'r polisi gael ei fabwysiadu gan y Corff Llywodraethu.
- Dylai monitro'r polisi gynnwys adborth gan staff, disgyblion a theuluoedd.
- Dylid cael dyddiadau adolygu a llofnodion.

Sut i ddefnyddio'r Ddogfen hon:

Mae'r polisi enghreifftiol hwn wedi'i gynllunio i gefnogi eich ysgol i ddatblygu eich Polisi Gwrth-fwlio Ysgol Gyfan eich hun.

Mae'r polisi wedi'i gynllunio i chi fyfyrto am sefyllfa bresennol eich ysgol o ran Gwrth-fwlio. Fe'i cynlluniwyd hefyd i'w ddefnyddio fel "dogfen waith" i gefnogi eich ysgol i weithredu newidiadau i arferion a gweithdrefnau a nodwyd ar fwlio.

Cyflwyniad

Mae'r ysgol hon yn credu bod ymddygiad bwlliaidd yn gwbl annerbyniol ac na ddylid ei oddef. Mae pob aelod o gymuned yr ysgol yn rhannu cyfrifoldeb ar y cyd dros fynd i'r afael â bwlio pe bai'n digwydd ac wrth gydweithio i hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol. Mae'r ysgol yn cydnabod bod ganddi ddyletswydd gyfreithiol i atal a mynd i'r afael â phob math o ymddygiad bwlio.

Lluniwyd y polisi hwn gyda chyfranogiad cymuned yr ysgol gyfan ac mae'n ategu'r Datganiad o Werthoedd a Rennir y mae Ysgol yn seilio ei gwaith arno.

Mae'r polisi hwn wedi'i gynllunio i'w ddarllen ochr yn ochr â'r egwyddorion a'r arferion sydd wedi'u hymgorffori yn: Polisi Gwrth-Gasineb/Troseddu ac Aflonyddu; Polisi Ymddygiad; Polisi Presenoldeb a Pholisi Diogelu/Amddiffyn Plant.

Wrth bennu amcanion polisi ar gyfer yr ysgol hon, byddwn yn rhoi sylw dyledus i ddyletswydd gyffredinol Deddf Cydraddoldeb 2010 i:

- Ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall y mae'r Ddeddf yn ei wahardd.
- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu; mae hyn yn golygu dileu neu leihau anfanteision a ddioddefir gan bersonau sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol sy'n gysylltiedig â'r nodwedd honno.
- Cymryd camau i ddiwallu anghenion personau sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol sy'n wahanol i anghenion pobl nad ydynt yn ei rhannu.

Mae'r polisi ysgol hwn yn seiliedig ar gyfres ganllawiau Llywodraeth Cymru 'Herio Bwlgio – Hawliau, Parch, Cydraddoldeb' sy'n cynnwys canllawiau statudol ar gyfer awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu, yn ogystal â chanllawiau cynghorol ar gyfer plant a phobl ifanc, rhieni a gofalwyr.

Byddwn yn sicrhau bod yr holl ddisgyblion, rhieni, staff, llywodraethwyr ac eraill yn ymwybodol o'r polisi hwn ac yn gwybod y bydd camau priodol yn cael eu cymryd.

Rydym yn cydnabod y gall bwlio ddigwydd ym mhob ysgol, lleoliad chwarae ac ieuencid, yn ogystal ag yn y gymuned ehangach; ac y gall oedolion gael eu bwlio yn y gweithle. Bydd yr ysgol yn ceisio ymateb yn briodol fel pe bai wedi digwydd ar y safle drwy gynnwys asiantaethau allanol.

Nodau

Mae'r polisi hwn mewn partneriaeth â'r Polisi Gwrth-Gasineb, Digwyddiadau Casineb ac Aflonyddu yn hanfodol i gefnogi ein hethos ysgol gyfan, sef **sicrhau bod plant yn gallu dysgu heb ofn, eu bod yn teimlo'n ddiogel, yn hyderus ac yn hapus heb sarhad, aflonyddu, gormesu a cham-drin.**

Fe'i cynlluniwyd i **atal** ymddygiad bwlio lle bynnag y bo modd, i **ymateb** yn gyson yn unol â'r gweithdrefnau y cytunwyd arnynt pe bai'n digwydd ac i roi **cymorth** i'r rhai sy'n gysylltiedig fel y bo'n briodol.

Amcanion a chanlyniadau a ddymunir y polisi

Dylai hyn nodi'r hyn y mae'r polisi'n bwriadu ei gyflawni, a hyd y gellir, dylai'r rhain fod yn fesuradwy fel y gallwch fonitro a gwerthuso llwyddiant y polisi.

Er enghraifft, gallai eich polisi anelu at y canlynol:

- lleihau amllder yr holl achosion o fwlio, gan gynnwys disgyblion â nodweddion a ddiogelir;
- cynyddu'r tebygolrwydd y datgelir digwyddiadau i oedolyn cyfrifol;
- ymyrryd yn effeithiol pan fydd digwyddiadau'n digwydd;
- gwella presenoldeb disgyblion;
- rhoi strategaethau i ddisgyblion ymateb i ymddygiad bwlio;
- atgyfnerthu'r ethos gwrth-fwlio gyda HMS ysgol gyfan, cyfarfodydd staff ac ati;
- sicrhau bod pob rhanddeiliad yn deall beth yw bwlio a sut i'w adnabod;
- gwrandao ar farn disgyblion a gweithredu arno;
- darparu cymorth gan gymheiriaid ac atgyfnerthu'r neges gwrth-fwlio drwy lechyd a Lles/ /ABCh/ACEDd;
- gwneud yr ysgol yn lle mwy diogel a mwy pleserus.

Beth yw Bwlio?

Nid oes diffiniad cyfreithiol o fwlio yng Nghymru. Mae canllawiau gwrth-fwlio blaenorol Llywodraeth Cymru (Parchu eraill: Trosolwg gwrth-fwlio, Dogfen ganllawiau Rhif: 050/2011) yn nodi bod bwlio:

- yn fwriadol niweidiol (gan gynnwys ymddygiad ymosodol);
- yn digwydd yn aml dros gyfnod o amser (gan gydnabod y gall un digwyddiad yn unig achosi trawma i ddisgybl a gwneud iddo boeni y gallai ddigwydd eto yn y dyfodol);
- yn ei gwneud yn anodd i ddioddefwyr amddiffyn eu hunain yn ei erbyn.

Mae'r ysgol hon yn defnyddio'r diffiniad a ddarperir gan Lywodraeth Cymru - Hawliau, parch, cydraddoldeb: Canllawiau statudol ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir (2019):

“Ymddygiad gan unigolyn neu grŵp, sy'n cael ei ailadrodd yn raddol dros gyfnod, sy'n niweidio eraill yn fwriadol, naill ai'n gorfforol neu'n emosiynol.”

Mae bwlio'n ymwneud â phŵer. Mae dioddefwyr yn teimlo'n ddi-rym i'w atal. Efallai y bydd eraill, fel rhieni, er enghraifft, yn teimlo'n ddi-rym i wybod sut i helpu. Beth bynnag fo'r rheswm, nid yw bwlio byth yn dderbyniol ac ni chaiff ei oddef.

Gall bwlio fod ar sawl ffurf ond gall fod yn:

- **gorfforol** – cicio, baglu neu wthio rhywun, anafu rhywun, difrodi ei eiddo neu wneud ystumiau bygythiol;
- **geiriol** – gwawdio a galw enwau, sarhau, bygwth, bychanu neu frawychu;
- **emosiynol** – ymddygiad a fwriedir i ynysu, niweidio neu fychanu rhywun; gweithredoedd slei neu lechwraidd a wnaed yng nghefn y targed, neu ledaenu suon sy'n ceisio niweidio perthnasoedd y targed, tynnu eu ffrindiau i ffwrdd, ynysu neu fychanu rhywun neu gael rhywun i drafferthion yn fwriadol;
- **rhywiol** – cyffwrdd digroeso, bygythiadau, awgrymiadau, sylwadau a jôcs neu ensyniadau. Gall hyn hefyd gynnwys blacmel rhywiol, yr hyn a elwir yn 'bornograffi dial' ac unrhyw gamddefnydd o luniau personol a chignoeth o'r dysgwr sy'n cael ei dargedu;
- **ar-lein (seiber)** – defnyddio unrhyw fath o ddulliau technolegol, ffonau symudol, rhwydweithiau cymdeithasol, gemau, ystafelloedd sgwrsio, fforymau neu apiau i fwlio drwy negeseuon testun, negeseuon, delweddau neu fideo;
- **cysylltiedig â rhagfarn** – bwlio dysgwr neu grŵp o ddysgwyr oherwydd rhagfarn. Gellid cysylltu hyn â stereoteipiau neu ragdybiaethau am hunaniaeth. Mae bwlio sy'n gysylltiedig â rhagfarn yn cynnwys y nodweddion gwarchodedig. (Gan gynnwys oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol). Gall rhagfarn ymestyn y tu hwnt i'r nodweddion gwarchodedig a gall arwain at fwlio am amrywiaeth o resymau eraill megis statws cymdeithasol a chefnidir.

Am ddiffiniadau ar droseddau casineb/digwyddiadau ac aflonyddu, cyfeiriwch at Bolisi Digwyddiadau / Troseddu Casineb ac Aflonyddu.

Arwyddion Posibl o Fwlio

Gall y rhai sy'n cael eu bwlio ddangos newidiadau mewn ymddygiad fel mynd yn swil a nerfus, ffugio salwch neu lynu wrth oedolion. Gall eu gwaith ysgol ddirywio. Efallai y byddant yn ei chael hi'n anodd canolbwyntio neu'n chwarae triwant o'r ysgol.

Mae ein dull ysgol gyfan o atal bwlio yn cynnwys:

(Gellir ymestyn yr adnoddau a'r syniadau hyn i gynnwys troseddau/digwyddiadau gwrth-Gasineb ac aflonyddu)

(Defnyddiwch yr enghreifftiau hyn ac ychwanegu neu ddileu fel y bo'n briodol ar gyfer eich ysgol)

Fel ysgol byddwn yn:

- Penodi arweinydd gwrth-fwlio, troseddau casineb, digwyddiadau casineb ac aflonyddu - Gallai hyn fod yn rôl ddynodedig i unigolyn neu dîm.
- Y prif gyfrifoldebau fyddai: gwrth-fwlio / gwrth-gasineb a chreu polisi aflonyddu; adolygu a datblygu parhaus; gweithredu polisi a monitro ei effeithiolrwydd a'i gynnydd; rheoli'r broses o fwlio, e.e. ymyriadau a ddefnyddir, adrodd, cofnodi, monitro a gwerthuso; sicrhau bod staff/disgyblion/rhieni newydd yn cael eu cyflwyno i'r polisi.
- Sicrhau bod yr holl staff yn cael eu hyfforddi i'r lefel briodol o Drais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)
- Codi ymwybyddiaeth am ymddygiad bwlio gan..... Gweithgareddau wythnos gwrth-fwlio bob mis Tachwedd / cynullïadau / sesiynau ABCCh / cynnwys y cwricwlwm
- Bydd llawer o gyfleoedd ar draws **cwricwlwm newydd Cymru 2022** i ymgorffori ymddygiad a pharch cadarnhaol. Ni ddylid cyfyngu cyfleoedd i'r Maes Iechyd a Lles o Brofiad Dysgu ond dylid eu hystyried ar draws holl feysydd y cwricwlwm a thu hwnt.
- Defnyddio ymyriadau megis SEAL fel strategaeth ysgol gyfan i fynd i'r afael ag ymddygiad bwlio. Mae eraill yn cynnwys Rhaglen Gwrth-fwlio KiVa, Rhaglen Atal Bwlio Olweus, Y Llwybr Cywir: Dull Hawliau Plant yng Nghymru ac AGENDA: Making Positive Relationships Matter. Mater i ysgolion unigol yw penderfynu ar y ffordd fwyaf effeithiol o greu amgylchedd dysgu diogel sy'n seiliedig ar hawliau.
- Defnyddio cyfleoedd i fynd i'r afael â bwlio drwy, arddangosfeydd, posteri, blwch bwli, sesiynau cyfiawnder adferol, cefnogaeth gan gymheiriaid a'r Cyngor Ysgol.

- Sicrhau bod y wybodaeth yn y polisi hwn ar gael i bawb yng nghymuned ein hysgol – drwy argaeledd ar y wefan / llawlyfrau staff / prospectws ysgol
- Cynnwys holl aelodau cymuned yr ysgol wrth ddylunio /gweithredu'r polisi- defnyddio cyngor yr ysgol i ddatblygu "fersiwn sy'n addas i blant"
- Mabwysiadu dulliau ataliol o fwlio, Er enghraifft.....
- Datblygu ethos cadarnhaol sy'n cynnwys gwybod bod bwlio yn annerbyniol.
- Disgwyl ymddygiad cadarnhaol sy'n helpu ac yn cefnogi dysgu a datblygu ... gweler Polisi Ymddygiad
- Hyrwyddo cydweithredu a disgwyl ymddygiad sy'n gyfrifol yn gymdeithasol.
- Annog y gwylwyr hynny sy'n dyst i fwlio i weithredu'n gadarnhaol drwy rybuddio staff a rhoi pwysau ar y cyd i atal cyflawnwyr.
- Gwerthfawrogi a dathlu gwahaniaethau, sgiliau a thalentau pawb.
- Cefnogi datblygiad llythrennedd emosiynol, hunan-barch a gwytnwch mewn gwasanaethau ysgol, gwaith grŵp, Amser Cylch, ABCh, y rhaglen Ysgolion Iach, datblygu sgiliau, addysgu strategaethau ymdopi personol disgyblion, cynnwys y Cyngor Ysgol, cynlluniau Cyfeillion, mentora cyfoedion, cyfryngu a Dulliau Adferol.
- Hyrwyddo pwysigrwydd perthnasoedd iach a chodi ymwybyddiaeth plant am faterion trais a cham-drin mewn ffordd sy'n briodol i'w hoedran a diogel drwy gynnal sesiynau o Brosiect Sbectwm Hafan Cymru.
- Hyfforddi'r holl staff gan gynnwys staff amser cinio a hyfforddwyr dysgu, cynorthwywyr addysgu a staff cymorth i nodi bwlio a dilyn polisi a gweithdrefnau'r ysgol ar fwlio. Bydd anghenion hyfforddi yn cael eu hadolygu'n flynyddol ar gyfer pob aelod o staff.
- Mynd ati i greu "mannau diogel" ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed.
- Lle bo'n briodol, defnyddio cyfryngwyr hyfforddedig (ee. Swyddogion Cyswllt Ysgolion yr Heddlu) wrth gyflawni penderfyniad addas.
- Adolygu a diweddarau polisi'n barhaus yn unol ag arfer gorau a chanfyddiadau.
- Cysylltwch ag asiantaethau allanol perthnasol lle bo hynny'n briodol.
- Cynnwys ein SHCY (Swyddog Heddlu Cymuned Ysgolion) dynodedig wrth gyflwyno Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan.
- Dangos parch at eraill a herio ac addysgu am iaith amhriodol sy'n; cyfleu rhagfarn ar sail hil, homoffobig, rhyw, crefydd, anabledd neu byddai'n cael ei hystyried yn dramgwyddus neu'n ddifrifol gan unrhyw grwpiau gwarchoddedig a enwir yn y ddeddf cydraddoldeb.

- **Nodi canllawiau clir i rhieni a gofalwyr** sy'n dymuno cwyno am fwlio Dan adran 29 o Ddeddf Addysg 2002, mae'n ofynnol i lywodraethwyr ysgol gael gweithdrefn gwyno a rhoi cyhoeddusrwydd iddynt. Rhaid i weithdrefn gwyno ysgol fod ar gael ar wefan yr ysgol a/neu fod ar gael ar gais gan yr ysgol Rhaid i'r polisi esbonio'r broses ar gyfer cyflwyno cwyn.
- Nodi canllawiau clir sy'n briodol i oedran ar gyfer disgyblion sy'n dymuno cwyno am fwlio?
- Mae'r holl staff yn dangos ymddygiadau cadarnhaol priodol drwy esiampl.

Byddwn yn cynnwys myfyrwyr drwy

- Canfasio barn myfyrwyr yn rheolaidd ar faint a natur bwlio;
- Sicrhau bod myfyrwyr yn gwybod sut i fynegi pryderon a phryderon am fwlio;
- Sicrhau bod pob myfyriwr yn ymwybodol o'r ystod o sancsiynau y gellir eu cymhwyso yn erbyn y rhai sy'n ymwneud â bwlio;
- Cynnwys myfyrwyr mewn ymgyrchoedd gwrth-fwlio mewn ysgolion;
- Cynnig cymorth i fyfyrwyr sydd wedi cael eu bwlio; a
- Gweithio gyda myfyrwyr sydd wedi cael eu bwlio i fynd i'r afael â'r problemau sydd ganddynt.

Byddwn yn gweithio'n agos gyda theuluoedd i

- Sicrhau bod rhieni / gofalwyr yn gwybod â phwy i gysylltu os ydynt yn poeni am fwlio;
- Sicrhau bod rhieni'n gwybod am ein polisi drwy roi cyhoeddusrwydd iddo ar wefan yr ysgol a rhoi arweiniad ar sut i'w ddefnyddio'n effeithiol;
- Sicrhau bod rhieni / gofalwyr yn gwybod ble i gael cyngor annibynnol am fwlio; a
- Gweithio gyda rhieni / gofalwyr a'r gymuned leol i fynd i'r afael â materion y tu hwnt i gatiâu'r ysgol sy'n arwain at fwlio.

Annog adrodd os bydd Bwlio'n digwydd:

Mae'n bwysig ein bod yn creu awyrgylch yn ein hysgol lle mae unrhyw un sy'n cael ei fwlio, neu eraill sy'n gwybod amdano, yn teimlo y gwrandewir arnynt, ac y bydd y camau yn cael eu cymryd yn gyflym ac mewn modd sy'n sensitif i'w hanghenion. Gall datgelu (dweud wrth oedolyn) fod yn uniongyrchol ac yn agored neu'n anuniongyrchol ac yn ddiennw. Rhaid i bawb sylweddoli bod peidio â dweud yn golygu y bydd y bwlio'n debygol o barhau.

Mae ein dull ysgol gyfan o ymateb i digwyddiadau bwlio yn cynnwys:

- Gall disgyblion a rhieni/gofalwyr fod yn sicr y bydd eu pryderon yn cael eu hymateb mewn modd sensitif.
- Bydd pob adroddiad yn cael ei gymryd o ddifrif ac ymchwilir iddo.
- Bydd cyfrinachedd unrhyw un sy'n rhannu gwybodaeth yn cael ei barchu.
- Mae cyfleoedd i blant gyfleu pryderon yn cynnwys defnydd o flwch problemau i gyfathrebu ag unrhyw aelod o staff, cynrychiolaeth ar y Cyngor Ysgol a chyfeillion/mentoriaid a fydd yn trosglwyddo pryderon

Os bydd bwlio'n digwydd, byddwn yn gweithredu'r gweithdrefnau canlynol, fel y bo'n briodol, yn unol â chyfres ganllawiau Llywodraeth Cymru ' *Herio Bwlio – Hawliau, Parch, Cydraddoldeb*'. Byddwn yn cymryd pob digwyddiad o ddifrif ac yn cofnodi pa mor aml y mae'r digwyddiadau hyn yn digwydd ar Log Bwlio.

Bydd person dynodedig yn monitro ac yn coladu gwybodaeth am ddiodefwrwyr bwlio a chyflawnwyr. Bydd y person hwnnw'n:

- Ymchwilio i'r digwyddiad / casglu'r ffeithiau drwy siarad yn annibynnol â phawb sy'n gysylltiedig.
- Defnyddio technegau ymyrraeth adferol priodol i reoli anawsterau rhwng cyflawnwyr a thargedau; annog cymodi lle bo hyn yn bosibl/ymarferol.
- Lle mae ymddygiad bwlio wedi'i gadarnhau, gweithredu cosbau y cytunwyd arnynt yn gyson ac yn deg yn ôl yr angen i atal digwyddiadau pellach.
- Cynnwys rhieni cyn gynted â phosibl lle bo hynny'n briodol.
- Cadw cofnodion cywir, ffeithiol o'r holl ddigwyddiadau a gofnodwyd ac ymateb yr ysgol.
- Cymryd camau dilynol o ran y digwyddiadau bob amser ar ôl ymdrin â nhw ac adolygu'r canlyniadau i sicrhau bod yr ymddygiad bwlïaidd wedi dod i ben.
- Darparu cymorth parhaus i'r rhai sy'n gysylltiedig lle bo angen; mae taflenni Llywodraeth Cymru ar gael i blant, pobl ifanc a rhieni/gofalwyr.

Bydd yr ysgol yn cynnig Dull Adferol ac yn ceisio trwsio'r niwed. Gall hefyd, yn dibynnu ar y math o ddigwyddiad, ddefnyddio cosbau. Gall y rhain gynnwys;

- Tynnu breintiau/amser rhydd yn ôl.
- Atal mynediad i rannau o'r ysgol.
- Gwaharddiad neu gadw disgyblion ar ôl amser neu amser cinio, a hynny am dymor byr neu dymor hir.
- Cynnwys rhieni pan fo angen.
- Cynnwys asiantaethau allanol priodol.
- Cynnwys manylion am gofnod ysgol y cyflawnwr.

Cymorth i staff sy'n cael eu bwlio

Mae bwlio staff, boed gan ddisgyblion, rhieni neu gydweithwyr, yn annerbyniol. Bydd yr ysgol yn ceisio cydymffurfio â chyngor Llywodraeth Cymru ar gyfer penaethiaid a staff ysgolion ar sut i amddiffyn eu hunain rhag seiberfwlio a sut i fynd i'r afael ag ef os bydd yn digwydd.

A oes gan yr ysgol system effeithiol ar gyfer cadw cofnodion o ddigwyddiadau bwlio?

Amgaeir ffurflen cofnodi digwyddiadau (Bwlio, trosedd casineb, digwyddiad casineb, aflonyddu, 'arall'). Dylid dadansoddi data o'r fath bob tymor ac ar ôl hynny caiff adnoddau a chyngor eu targedu'n unol â hynny.

Adolygu, Monitro a Gwerthuso

Lluniwyd manylion terfynol y polisi hwn mewn ymgynghoriad â disgyblion, rhieni, staff ac aelodau o gymuned yr ysgol.

Caiff ei drafod, ei adolygu a'i ddiwygio'n flynyddol.

Caiff y polisi hwn a'r gweithdrefnau cysylltiedig eu monitro a bydd yr effeithiolrwydd yn cael ei werthuso yn sgîl:

- nifer y disgyblion sy'n cael eu bwlio.
- parodrwydd disgyblion i roi gwybod am ddigwyddiadau
- gwyliadwriaeth staff ac ymateb i ymddygiad bwlio
- nifer y disgyblion a'r rhieni sy'n teimlo'n ddiogel am ymateb yr ysgol i fwlio.

Cesglir data drwy MyConcern.

Y Person(au) Dynodedig ar gyfer Gwrth-fwlio yw:		
Yr Uwch Aelodau Staff sy'n gyfrifol am y maes polisi hwn yw:		
Y Llywodraethwr sy'n goruchwyllo'r polisi hwn yw:		
Cytunwyd gan y Corff Llywodraethu		Dyddiad:
Pennaeth		Dyddiad:
I'w adolygu		Dyddiad:

2.2 Polisi enghreifftiol ar gyfer trosedd casineb, digwyddiadau casineb ac aflonyddu

Polisi Troseddau casineb, digwyddiadau casineb ac aflonyddu Datblygiad

Mae'r un egwyddorion o "**Ymgynghori**", "**Atal**", "*Cadw Cofnodion yn Effeithiol*", a "**Datblygu ac Adolygu**" fel yr amlinellir yn y datblygiad polisi Gwrth-fwlio yn berthnasol yma. Mae'r rhestr wirio polisi a'r ffurflen cofnodi digwyddiadau hefyd yn ymwneud â'r ddau bolisi.

Cyflwyniad

Mae ein hysgol yn fan lle mae gan bob person yr hawl i fod yn nhw eu hunain, i gael ei gynnwys ac i ddysgu mewn amgylchedd diogel a hapus. Mae pawb yn ein hysgol yn gyfartal ac yn trin ei gilydd gyda pharch a charedigrwydd.

Mae ein hysgol yn credu bod unrhyw fath o drosedd casineb, digwyddiad casineb neu aflonyddu yn gwbl annerbyniol ac na ddylid ei oddef.

Mae pob aelod o gymuned yr ysgol yn rhannu cyfrifoldeb ar y cyd dros fynd i'r afael â throseddau casineb, digwyddiadau casineb ac aflonyddu pe bai'n digwydd ac i gydweithio i hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol.

Mae'r ysgol yn cydnabod bod ganddi ddyletswydd gyfreithiol i atal a mynd i'r afael â phob math o droseddau casineb, digwyddiadau casineb ac ymddygiad aflonyddu.

Lluniwyd ein polisi gyda chyfranogiad cymuned yr ysgol gyfan ac mae'n ategu'r Datganiad o Werthoedd a Rennir y mae Ysgol yn seilio ei gwaith arno.

Mae'r polisi hwn wedi'i gynllunio i'w ddarllen ochr yn ochr â'r egwyddorion a'r arferion sydd wedi'u hymgorffori ym: Mholisi Gwrth-fwlio; Polisi Ymddygiad; Polisi Presenoldeb a Pholisi Diogelu/Amddiffyn Plant yr Ysgol.

Wrth bennu amcanion polisi ar gyfer ein hysgol, byddwn yn rhoi sylw dyledus i ddyletswydd gyffredinol Deddf Cydraddoldeb 2010 i:

- Ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall y mae'r Ddeddf yn ei wahardd.
- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu; mae hyn yn golygu dileu neu leihau anfanteision a ddioddefir gan bersonau sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol sy'n gysylltiedig â'r nodwedd honno.
- Cymryd camau i ddiwallu anghenion personau sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol sy'n wahanol i anghenion pobl nad ydynt yn ei rhannu.

Byddwn yn sicrhau bod yr holl ddisgyblion, rhieni, staff, llywodraethwyr ac eraill yn ymwybodol o'r polisi hwn ac yn gwybod y bydd camau priodol yn cael eu cymryd.

Rydym yn cydnabod y gall troseddau casineb, digwyddiadau casineb ac aflonyddu ddigwydd ym mhob ysgol, lleoliad chwarae ac ieuenctid, yn ogystal ag yn y gymuned ehangach; ac y gall troseddau casineb, digwyddiadau casineb ac aflonyddu ddigwydd i oedolion yn y gweithle. Bydd ein hysgol yn ceisio ymateb yn briodol fel pe bai wedi digwydd ar y safle drwy gynnwys asiantaethau allanol.

Nodau

Mae'r polisi hwn mewn partneriaeth â'r polisi Gwrth-fwlio yn hanfodol i gefnogi ein hethos ysgol gyfan, sef **sicrhau bod plant yn gallu dysgu heb ofn, teimlo'n ddiogel, yn hyderus ac yn hapus heb sarhad, aflonyddu, gormes a cham-drin.**

Fe'i cynlluniwyd i **atal** troseddau casineb, digwyddiadau casineb ac aflonyddu lle bynnag y bo modd, i **ymateb** gyson yn unol â'r gweithdrefnau y cytunwyd arnynt pe bai'n digwydd ac i **gynorthwyo'r** rhai sy'n ymwneud fel y bo'n briodol.

Amcanion a chanlyniadau dymunol y polisi. (Dylai hyn nodi'r hyn y mae'r polisi'n anelu at ei gyflawni, a chyn belled ag y bo modd dylai'r rhain fod yn fesuradwy fel y gallwch fonitro a gwerthuso llwyddiant y polisi. (Mae'r rhain yr un fath â'r Polisi Gwrth-fwlio ond maent yn ymwneud â throseddau casineb, digwyddiadau casineb ac aflonyddu)).

Beth yw trosedd casineb, digwyddiadau casineb ac aflonyddu?

Diffiniad o droseddau casineb

Diffinnir trosedd casineb fel unrhyw **drosedd** y mae'r dioddefwr neu unrhyw berson arall yn ystyried ei bod yn cael ei hysgogi gan elyniaeth neu ragfarn yn seiliedig ar hil neu hil ganfyddedig person; crefydd neu grefydd canfyddedig person; cyfeiriadedd rhywiol neu gyfeiriadedd rhywiol canfyddedig person; anabledd neu anabledd canfyddedig person; ac unrhyw drosedd sy'n cael ei hysgogi gan elyniaeth neu ragfarn yn erbyn person sy'n drawsryweddol neu yr ystyrir iddo fod yn drawsryweddol.

Gall Troseddau Casineb gynnwys:

- Ymosodiad corfforol
- Difrod troseddol, difrod i eiddo, graffiti sarhaus, llosgi bwriadol
- Aflonyddu
- Post casineb
- Achosi aflonyddwch, braw neu drallod (Deddf Trefn Gyhoeddus 1986)

Diffiniad o ddigwyddiad casineb

*Digwyddiad casineb yw **unrhyw** ddigwyddiad nad yw'n drosedd y mae'r dioddefwr neu unrhyw berson arall yn ystyried ei fod yn cael ei ysgogi gan elyniaeth neu ragfarn yn seiliedig ar hil neu hil ganfyddedig person; crefydd neu grefydd canfyddedig person; cyfeiriadedd rhywiol neu gyfeiriadedd rhywiol canfyddedig person; anabledd neu anabledd canfyddedig person; neu ar sail bod yn drawsryweddol neu yr ystyrir i berson fod yn drawsryweddol.*

Gall unrhyw un ddioddef digwyddiad casineb. Er enghraifft, efallai eich bod wedi cael eich targedu oherwydd bod rhywun yn meddwl eich bod yn hoyw er nad ydych, neu oherwydd bod gennych blentyn anabl.

Ni fydd pob digwyddiad casineb yn gyfystyr â throseddau, ond mae'r un mor bwysig bod y rhain yn cael eu hadrodd a'u cofnodi.

Gall digwyddiadau casineb gynnwys:

- Cam-drin geiriol, galw enwau, jôcs sarhaus
- Aflonyddu a sarhad
- Bwlio neu fygwth
- Post casineb, negeseuon ffôn neu destun difriol
- Cwynion maleisus
- Cam-drin ar-lein

Gall troseddau casineb a digwyddiadau casineb fod ar sawl ffurf, gan gynnwys:

(Am enghreifftiau gweler dogfen ganllaw Herio Bwlio, Troseddau Casineb, Digwyddiadau Casineb ac Aflonyddu.)

1. Anabledd

Mae troseddau a digwyddiadau casineb ar sail anabledd yn cael eu hysgogi gan ragfarn yn erbyn pobl anabl. Gall hyn fod yn gysylltiedig ag anabledd neu angen ychwanegol canfyddedig neu wirioneddol. Drwy ganfyddiad, rydym yn golygu y gall rhai plant drin nodwedd gorfforol neu 'ymddygiadol' plentyn arall fel anabledd, a'i gau allan neu ei fwlio oherwydd hynny, er nad yw'r plentyn ei hun yn ystyried bod ganddynt anabledd. Gall y plant eraill ystyried y nodwedd hon yn anabledd naill ai drwy gamddealltwriaeth wirioneddol neu oherwydd anoddefgarwch o wahaniaethau.

2. Hil

Mae troseddau a digwyddiadau casineb ar sail hil yn digwydd pan fydd plentyn neu berson ifanc yn profi ymddygiad gelyniaethus neu sarhaus mynych yn ei erbyn yn seiliedig ar:

- liw ei groen
- cefndir neu draddodiadau diwylliannol a chrefyddol
- ethnigrwydd neu ethnigrwydd canfyddedig

3. Crefydd

Mae troseddau a digwyddiadau casineb ar sail crefydd yn digwydd pan fydd plentyn neu berson ifanc yn profi ymddygiad gelyniaethus neu sarhaus mynych yn ei erbyn yn seiliedig ar ei greffydd, ffydd neu gred. Mae hyn yn cynnwys digwyddiadau sectyddol.

4. Cyfeiriadedd rhywiol - Homoffobig

Mae troseddau casineb a digwyddiadau casineb homoffobig yn digwydd yn aml o ganlyniad i gyfeirio rhagfarn at blentyn neu berson ifanc oherwydd ei fod:

- yn lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol
- yn cael ei ystyried yn lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol am ei fod yn ffitio rhai stereoteipiau (e.e. bechgyn sy'n siarad yn feddal, merched sy'n hoffi pêl-droed, ac ati)
- â ffrindiau LHD neu aelodau o'r teulu sy'n LHD
- yn cael ei ystyried yn wahanol

5. Hunaniaeth rhywedd - Trawsffobig

Mae troseddau casineb a digwyddiadau casineb trawsffobig yn digwydd yn aml o ganlyniad i gyfeirio ragfarn at blentyn neu berson ifanc oherwydd ei fod:

- yn drawsryweddol
- yn cael ei ystyried yn drawsryweddol
- nad yw'n cyd-fynd â normau rhyw traddodiadol (e.e. bechgyn â gwallt hir neu'n gwisgo colur, merched yn chwarae chwaraeon tîm)
- â ffrindiau trawsryweddol neu aelodau o'r teulu sy'n drawsryweddol
- yn cael ei ystyried yn wahanol

6. Digwyddiad casineb wedi'i ysgogi gan ryw neu rywedd

Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi'n ddiweddar y bydd casineb at wragedd (misogyny) yn cael ei gynnwys o dan droseddau casineb/digwyddiadau casineb.

- Gall **casineb at wragedd** gynnwys casineb ar lafar neu weithredol o fenywod, gan wrthwynebu hawliau sylfaenol menywod, megis rhyddid a pharch unigol.
- Gall **casineb at ddynion** gynnwys dangos casineb, dirmyg neu ragfarn yn erbyn dynion neu fechgyn yn gyffredinol. Gellir arddangos casineb at ddynion mewn sawl ffordd, gan gynnwys allgáu cymdeithasol, rhywiaeth, gelyniaeth, bychanu dynion, trais yn erbyn dynion, a gwrthrychu rhywiol.

Arwyddion Posibl o droseddau casineb, digwyddiadau casineb ac aflonyddu

Gall y rhai sy'n profi troseddau casineb, digwyddiadau casineb neu aflonyddu ddangos newidiadau mewn ymddygiad fel mynd yn swil a nerfus, esgus salwch neu lynu wrth oedolion. Gall eu gwaith ysgol ddirywio. Efallai y byddant yn ei chael hi'n anodd canolbwyntio neu'n chwarae triwant o'r ysgol.

Mae ein dull ysgol gyfan o atal troseddau casineb, digwyddiadau casineb ac aflonyddu yn cynnwys:

(Gweler y enghreifftiau a roddir yn y polisi enghreifftiol Gwrth-fwlio ond ond gan gynnwys agweddau ar droseddau/digwyddiadau casineb ac aflonyddu)

Fel ysgol byddwn yn:

- Penodi arweinydd gwrth-fwlio troseddau casineb, digwyddiadau casineb ac aflonyddu -gweler Polisi gwrth-fwlio.
- Codi ymwybyddiaeth am droseddau casineb, digwyddiadau casineb ac ymddygiad aflonyddu drwy.....
- Bydd llawer o gyfleoedd ar draws **cwricwlwm newydd Cymru 2022** i ymgorffori ymddygiad cadarnhaol a pharch.
- Defnyddio ymyriadau fel SEAL fel strategaeth ysgol gyfan i fynd i'r afael â throseddau casineb, digwyddiadau casineb ac ymddygiad aflonyddol.
- Defnyddio cyfleoedd i fynd i'r afael â throseddau casineb, digwyddiadau casineb ac aflonyddu drwy arddangosfeydd, poster, blwch bwli, sesiynau cyfiawnder adferol, cefnogaeth gan gymheiriaid a'r Cyngor Ysgol.
- Sicrhau bod y wybodaeth yn y polisi hwn ar gael i bawb yng nghymuned ein hysgol – drwy argaeledd ar wefan / llawlyfrau staff / prosectws ysgol
- Annog y sawl sy'n dyst i droseddau casineb, digwyddiadau casineb ac aflonyddu weithredu'n gadarnhaol drwy rybuddio staff a rhoi pwysau ar y cyd gan gyfoedion i atal cyflawnwyr.
- Gwerthfawrogi a dathlu gwahaniaethau, sgiliau a thalentau pawb.
- Mynd ati i greu "mannau diogel" ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed;
- Lle bo'n briodol, defnyddiwch gyfryngwyr hyfforddedig (ee. Swyddogion Cyswllt Ysgolion yr Heddlu) wrth gyflawni datrysiad addas;
- Adolygu a diweddarau polisi'n barhaus yn unol ag arfer gorau a chanfyddiadau; a
- Chysylltu ag asiantaethau allanol perthnasol lle bo hynny'n briodol.
- Cynnwys ein Swyddog Cymuned Ysgol yr Heddlu dynodedig yn weithredol wrth gyflwyno Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan.

- Dangos parch at eraill a herio ac addysgu am iaith amhriodol sy'n; cyfleu rhagfarn ar sail hil, homoffobig, rhyw, crefydd, anabledd neu byddai'n cael ei hystyried yn dramgwyddus neu'n ddifriol gan unrhyw grwpiau gwarchoddedig a enwir yn y ddeddf cydraddoldeb.
- Wedi'i nodi'n **glir canllawiau i rieni/gofalwyr** sy'n dymuno cwyno am droseddau casineb, digwyddiadau casineb ac aflonyddu?
- Wedi nodi'n glir ganllawiau i rieni/gofalwyr sy'n dymuno cwyno am droseddau casineb, digwyddiadau casineb ac aflonyddu?
- Mae'r holl staff yn modelu ymddygiadau cadarnhaol priodol drwy esiampl.

Annog adrodd os oes trosedd casineb, digwyddiadau casineb neu aflonyddu yn **digwydd**:

Mae'n bwysig ein bod yn creu awyrgylch yn yr ysgol lle mae unrhyw un sydd wedi profi trosedd casineb, digwyddiadau casineb neu aflonyddu, neu eraill sy'n gwybod amdano, yn teimlo y gwrandewir arnynt, ac y bydd y camau a gymerir yn gyflym ac yn sensitif i'w hanghenion.

Gall datgelu (dweud wrth oedolyn) fod yn uniongyrchol ac yn agored neu'n anuniongyrchol ac yn ddiennw. Rhaid i bawb sylweddoli bod peidio â dweud yn golygu bod troseddau casineb, digwyddiadau casineb ac aflonyddu yn debygol o barhau.

Mae ein dull ysgol gyfan o ymateb i troseddau casineb, digwyddiadau casineb ac aflonyddu yn cynnwys:

- Gall disgyblion a rhieni/gofalwyr fod yn sicr y bydd eu pryderon yn cael eu hymateb mewn modd sensitif.
- Bydd pob adroddiad yn cael ei gymryd o ddifrif ac ymchwilir iddo.
- Bydd cyfrinachedd unrhyw un sy'n rhannu gwybodaeth yn cael ei barchu.
- Mae cyfleoedd i blant gyfleu pryderon yn cynnwys defnydd o flwch problemau i gyfathrebu ag unrhyw aelod o staff, cynrychiolaeth ar y Cyngor Ysgol a chyfeillion/mentoriaid a fydd yn trosglwyddo pryderon.

Bydd person dynodedig yn monitro ac yn coladu gwybodaeth am ddiodefwr a chyflawnwyr troseddau casineb, digwyddiadau casineb ac aflonyddu a bydd y person hwnnw'n:

- Ymchwilio i'r digwyddiad / casglu'r ffeithiau drwy siarad yn annibynnol â phawb sy'n gysylltiedig.
- Defnyddio technegau ymyrraeth adferol priodol i reoli anawsterau rhwng cyflawnwyr a thargedau; annog cymodi lle bo hyn yn bosibl/ymarferol.

- Pan fo achosion o droseddau casineb, digwyddiadau casineb neu aflonyddu wedi'u sefydlu, gweithredu sancsiynau y cytunwyd arnynt yn gyson yn ôl yr angen i atal digwyddiadau pellach.
- Cynnwys rhieni cyn gynted â phosibl lle bo hynny'n briodol.
- Cadw cofnodion cywir, ffeithiol o'r holl ddigwyddiadau a gofnodwyd ac ymateb yr ysgol.
- Digwyddiadau dilynol bob amser ar ôl iddynt gael eu trin ac adolygu canlyniadau er mwyn sicrhau bod troseddau casineb, digwyddiadau casineb ac aflonyddu wedi dod i ben.
- Rhoi cymorth parhaus i'r rhai sy'n cymryd rhan lle bo angen.

Bydd yr ysgol yn cynnig Dull Adferol ac yn ceisio trwsio'r niwed. Gall hefyd, yn dibynnu ar y math o ddigwyddiad, ddefnyddio cosbau. Gall y rhain gynnwys;

- Tynnu breintiau/amser rhydd yn ôl.
- Atal mynediad i rannau o'r ysgol.
- Gwaharddiad byrdymor neu hirdymor, cadw'n ôl ar ôl ysgol neu'n ystod amser cinio.
- Cynnwys rhieni pan fo angen.
- Cynnwys asiantaethau allanol priodol.
- Cynnwys manylion am gofnod ysgol y cyflawnwr.

Cymorth i staff sydd wedi profi troseddau casineb, digwyddiadau casineb ac aflonyddu

Mae achosion o droseddau casineb, digwyddiadau casineb ac aflonyddu tuag at staff, boed gan ddisgyblion, rhieni neu gydweithwyr, yn annerbyniol. Bydd yr ysgol yn ceisio cydymffurfio â chyngor Llywodraeth Cymru ar gyfer penaethiaid a staff ysgolion ar sut i amddiffyn eu hunain rhag troseddau casineb, digwyddiadau casineb ac aflonyddu a sut i fynd i'r afael ag ef os bydd yn digwydd.

System effeithiol ar gyfer cadw cofnodion o droseddau casineb, digwyddiadau casineb a digwyddiadau aflonyddu

Bydd pob digwyddiad yn cael ei gofnodi ar MyConcern o dan y categorïau a restrir yn y ddogfen ganllaw 'Herio bwlio, troseddau casineb, digwyddiadau casineb ac aflonyddu'.

Atodir Ffurflen cofnodi digwyddiadau (Bwlio, trosedd casineb, digwyddiad casineb, aflonyddu, 'arall') Caiff data o'r fath ei ddadansoddi bob tymor ac ar ôl hynny caiff adnoddau a chyngor eu targedu'n unol â hynny. Bydd y data'n cael ei rannu gyda'r ALL.

Adolygu, Monitro a Gwerthuso

Lluniwyd manylion terfynol y polisi hwn mewn ymgynghoriad â disgyblion, rhieni, staff ac aelodau o gymuned yr ysgol.

Caiff ei drafod, ei adolygu a'i ddiwygio'n flynyddol.

Caiff y polisi hwn a'r gweithdrefnau cysylltiedig eu monitro a bydd yr effeithiolrwydd yn cael ei werthuso yn sgîl:

- nifer y disgyblion sy'n profi troseddau casineb, digwyddiadau casineb ac aflonyddu.
- parodrwydd disgyblion i roi gwybod am ddigwyddiadau
- gwyliadwriaeth staff ac ymateb i droseddau casineb, digwyddiadau casineb ac aflonyddu
- nifer y disgyblion a'r rhieni sy'n teimlo'n ddiogel am ymateb yr ysgol i droseddau casineb, digwyddiadau casineb ac aflonyddu.

Y Person(au) Dynodedig ar gyfer troseddau casineb, digwyddiadau casineb ac Aflonyddu yw:		
Yr Uwch Aelodau Staff sy'n gyfrifol am y maes polisi hwn:		
Y Llywodraethwr sy'n goruchwylio'r polisi hwn yw:		
Cytunwyd gan y Corff Llywodraethu		Dyddiad:
Pennaeth		Dyddiad:
I'w adolygu		Dyddiad:

2.3 Rhestr wirio ar gyfer llunio Polisi Gwrth-fwlio, a Pholisi Trosedd Casineb, Digwyddiad Casineb ac Aflonyddu (2 dudalen)

	Le /Na	Sylwadau/ Camau Gweithredu Sydd eu Hangen
A oes gan y polisi gyflwyniad sy'n cynnwys datganiad o werthoedd ac ethos, nodau ac amcanion a'r canlyniadau a ddymunir?		
A oes person enwebedig?		
Ymgynghoriad		
A yw'r ysgol wedi ymgynghori'n eang wrth ddatblygu ei pholisi?		
Pwy yr ymgynghorwyd â hwy?		
A ddefnyddiwyd amrywiaeth o ddulliau i asesu graddau'r broblem yn eich ysgol?		
A ymgynghorir â grwpiau sydd â diddordeb ym mhob cam o'r gwaith o ddatblygu, gweithredu, monitro a gwerthuso'r polisi?		
Diffiniad o Fwlio; Trosedd Casineb, Digwyddiad Casineb, Aflonyddu		
A yw'r polisiâu'n diffinio'r hyn y mae'r ysgol yn ei ystyried yn fwlio, trosedd casineb, digwyddiad casineb ac aflonyddu?		
A yw'r diffiniadau'n glir ac yn addas i'r oedran ac yn hygyrch i bawb?		
A yw'r polisiâu'n nodi gwahanol fathau o ymddygiad bwlio, trosedd casineb, digwyddiad casineb ac aflonyddu, gan gynnwys defnyddio technoleg fodern fel arf?		

A yw'r polisi Gwrth-fwlio'n nodi categorïau pwysig o fwlio? Er enghraifft, bwlio ar sail hil, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, anghenion addysgol arbennig neu anabledau a chyflyrau iechyd hirdymor.		
A yw'r polisi Gwrth-Gasineb, Digwyddiadau Casineb ac Aflonyddu yn rhoi'r gwahaniaethau rhwng digwyddiad casineb a throsedd?		
Atal – lleihau amllder digwyddiadau		
A yw'r polisiâu'n ymdrin â digwyddiadau fel mater ysgol gyfan?		
A yw'r polisiâu'n nodi ystod o strategaethau y gall yr ysgol eu defnyddio i leihau digwyddiadau?		
A yw'r polisiâu'n ystyried yr holl gyfleoedd lle gellir mynd i'r afael â digwyddiadau drwy'r cwricwlwm?		
A yw'r polisiâu'n gosod system effeithiol ar gyfer cadw cofnodion o ddigwyddiadau?		
Ymateb – ymateb yn effeithiol i achosion a adroddwyd		
A yw'r polisiâu'n rhoi arweiniad i rieni ar sut y gallant gefnogi eu plentyn os mai ef/hi yw'r cyflawnwr?		
A yw'r polisiâu'n nodi canllawiau clir i rieni sy'n dymuno cwyno am fwlio, troseddau casineb/digwyddiadau neu aflonyddu?		
A yw'r polisiâu'n nodi canllawiau clir sy'n briodol i oedran ar gyfer disgyblion sy'n dymuno cwyno am fwlio troseddau/digwyddiadau neu aflonyddu casineb?		
A yw'r polisiâu'n nodi'r cymorth sydd ar gael i ddisgyblion sydd wedi dioddef bwlio, troseddau casineb/digwyddiadau neu aflonyddu?		

<p>A yw'r polisïau'n nodi'n glir yr ymatebion i ddigwyddiadau fel bod pawb yn deall beth fydd yn digwydd? Dylai hyn gynnwys gweithdrefnau clir ar gyfer adrodd ac ymdrin â digwyddiadau, a phrosesau disgyblu.</p>		
<p>A yw'r polisïau'n sicrhau bod staff yn cael eu nodi i ymgymryd â'r rôl hon a'u bod yn cael digon o gymorth / hyfforddiant ar gyfer y dasg hon?</p>		
<p>A yw'r polisïau'n nodi sut y caiff staff/disgyblion/rhieni newydd eu cynnwys ynddynt?</p>		
<p>Datblygu ac Adolygu</p>		
<p>A yw'r polisïau'n cynnwys rhestr wirio ar gyfer pryd y dylai pethau fod wedi digwydd?</p>		
<p>A oes prosesau clir ar gyfer cadw'r polisïau dan waith monitro parhaus?</p>		
<p>A ydynt yn nodi dyddiadau ar gyfer adolygiadau rheolaidd o'r polisïau?</p>		

2.4 Ffurflen cofnodi digwyddiadau (Bwlio, trosedd casineb, digwyddiad casineb, aflonyddu, 'arall')

Enw'r person sy'n adrodd am ddigwyddiad (nodwch dienw os yw hwn yn adroddiad dienw):	
Enw'r person sy'n cofnodi digwyddiad:	
Dyddiad yr adroddiad:	

Ystyriaethau diogelu

Os oes risg sylweddol o niwed neu os gallai fod risg sylweddol o niwed, siaradwch ag arweinydd diogelu dynodedig eich ysgol (ADD).

O dan Adran 89, (5) o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 mae gan yr ysgol bwerau i ddisgyblu ar gyfer digwyddiadau sy'n digwydd oddi ar y safle.

Mae Deddf Addysg 2011 yn rhoi pwerau i ysgolion chwilio am ac atafaelu dyfais ond cofiwch ystyried protocolau ar ymdrin â thystiolaeth neu ffonau symudol/dyfeisiau yn ddiogel. Peidiwch ag edrych ar, storio na rhannu deunydd sy'n cynnwys delweddau personol o ddysgwyr heb ymgynghori â'r ADD

Math o ddigwyddiad bwlio (ticiwch y cyfan sy'n berthnasol):

Corfforol	<input type="checkbox"/>	Rhywiol	<input type="checkbox"/>
Ar Lafar	<input type="checkbox"/>	Ar-lein (Seiber/ffôn)	<input type="checkbox"/>
Emosiynol	<input type="checkbox"/>	Sy'n gysylltiedig â rhagfarn	<input type="checkbox"/>
Anuniongyrchol	<input type="checkbox"/>	Wyneb yn wyneb	<input type="checkbox"/>
Arall (rhowch fanylion):			

Ar gyfer digwyddiadau sy'n ymwneud â rhagfarn, dewiswch y categori sy'n disgrifio orau'r rhagfarn dan sylw:

Oedran	<input type="checkbox"/>	Hil	<input type="checkbox"/>
Anabledd	<input type="checkbox"/>	Crefydd neu gred	<input type="checkbox"/>
Ailbennu Rhywedd	<input type="checkbox"/>	Rhyw a chyfeiriadedd rhywiol	<input type="checkbox"/>
Priodas a phartneriaeth sifil	<input type="checkbox"/>	Beichiogrwydd a mamolaeth	<input type="checkbox"/>
Targedu statws cymdeithasol teulu	<input type="checkbox"/>	Ymddangosiad	<input type="checkbox"/>
Cefndir	<input type="checkbox"/>	Angen Dysgu Ychwanegol	<input type="checkbox"/>
Targedu statws plentyn sy'n derbyn gofal	<input type="checkbox"/>	Salwch hirdymor	<input type="checkbox"/>
Arall (rhowch fanylion):			

Math o Drosedd Casineb

Anabledd	<input type="checkbox"/>	Cyfeiriadedd Rhywiol	<input type="checkbox"/>
Hil	<input type="checkbox"/>	Hunaniaeth rhywedd	<input type="checkbox"/>
Crefydd	<input type="checkbox"/>	Casineb tuag at Wragedd / Dynion	<input type="checkbox"/>
Arall (rhowch fanylion):			

Math o Ddigwyddiad Casineb

Anabledd	<input type="checkbox"/>	Cyfeiriadedd Rhywiol	<input type="checkbox"/>
Hil	<input type="checkbox"/>	Hunaniaeth rhywedd	<input type="checkbox"/>
Crefydd	<input type="checkbox"/>	Casineb tuag at Wragedd / Dynion	<input type="checkbox"/>
Arall (rhowch fanylion):			

Math o aflonyddu

Aflonyddu	<input type="checkbox"/>
Aflonyddu rhywiol / Ymddygiadau rhywiol niweidiol	<input type="checkbox"/>
<ul style="list-style-type: none"> • Normal • Amhriodol • Problematig • Camdriniol • Treisgar 	
Arall (rhowch fanylion):	

Unrhyw fath arall o ddigwyddiad na chofnodwyd uchod:

Arall (rhowch fanylion):

Crynodeb o'r digwyddiad;

--

Enw'r targed honedig:			
Dosbarth/ blwyddyn/ oedran		Grŵp blwyddyn/ llys:	

Enw'r cyflawnw(y)r honedig (os yw'n hysbys):			
Dosbarth/ blwyddyn/ oedran		Grŵp blwyddyn/ llys:	

Dyddiad(au) y digwyddiad(au):	Diwrnod		Mis		Blwyddyn	
Amser(oedd) yn Fras:	Cyn ysgol	Bore		Prynhawn		Ar ôl ysgol
A yw'r digwyddiad hwn yn gysylltiedig ag achosion blaenorol o erlid y targed?					Ydw	Nac ydy
					<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Os ydy, am ba hyd y mae'r person hwn wedi cael ei erlid? Rhwch y manylion:

Beth ddigwyddodd?

Pwy oedd yn rhan o'r peth?

A oes unrhyw ymyriad wedi cael ei brofi?

Ydw

Nac ydy

A yw'r achos hwn yn mynnu bod y protocol digwyddiadau difrifol yn cael ei actifadu?

Ydw

Nac ydy

A oes angen rhoi gwybod i'r heddlu?

Ydw

Nac ydy

A oes angen atafaelu/ynysu dyfais neu dystiolaeth fel tystiolaeth?

Ydw

Nac ydy

A oes angen tynnu deunydd ar-lein i lawr?	Ydw	Nac ydy
	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

A yw rhieni/gofalwyr wedi cael gwybod?	Ydw	Nac ydy
	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Pwy sydd wedi cymryd cyfrifoldeb am y camau hyn?

Camau a gymerwyd:

Angen gwaith dilynol?	Ydw	Nac ydy
	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Achos wedi'i ddatrys?	Ydw	Nac ydy
Os felly, nodwch y dyddiad:	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Crynodeb o'r canlyniad:

Cyfleoedd dysgu:

A fydddech yn argymhell unrhyw newidiadau i ddulliau, polisïau neu weithdrefnau o ganlyniad i'r digwyddiad hwn?

Llofnod:	Dyddiad: